



Arolygiad Thematig

Gweithredu a Throsoglwyddo Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Chwefror 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae modd i chi aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I edrych ar y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licenceneu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:

www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Llawr 1af Canolfan Cyfiawnder Sifil
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Rhagair

Wrth gyflwyno gofynion gweithgarwch adsefydlu ddwy flynedd yn ôl, roedd y llywodraeth eisiau sicrhau dedfrydu hyblyg ac effeithlon oedd â'r nod i leihau aildroseddu, ac i annog arloesi. Mae gofynion gweithgarwch adsefydlu erbyn hyn yn nodwedd gyffredin mewn gorchmynion dedfrydau cymunedol. Maent yn rhyddhau gwasanaethau prawf, yn eu galluogi i benderfynu ar y ffyrdd gorau i adsefydlu pob unigolyn. Ni fu unrhyw adolygiad o effeithiolrwydd y gorchmynion hyn hyd yma.

Roedd y problemau sydd wedi peryglu agweddau eraill ar drosglwyddo prawf yn ddiweddar yn amlwg adeg yr arolygiad hwn, ond yma rydym wedi canolbwyntio ar faterion sydd yn benodol i ofynion gweithgarwch adsefydlu.

Gall y gorchmynion hyn hwyluso cyfiawnder buan, gan gynyddu canran yr achosion a ddedfrydir ar y diwrnod. Er mwyn i ddedfrydwyr ystyried yr amrediad cyfan o opsiynau dedfrydu'n hyderus, fodd bynnag, rhaid iddynt gael gwybodaeth sydd yn ddigon cynhwysfawr am yr unigolyn a'r holl opsiynau dedfrydu sydd ar gael, a chyngor cadarn ar yr hyn sydd fwyaf addas a - lle caiff gofyniad gweithgarwch adsefydlu ei argymhell - y nifer uchaf o ddiwrnodau i'w pennu. Yn rhy aml mae hyn yn anodd neu'n amhosibl, yn rhannol oherwydd mentrau eraill yn y system ehangach (megis cyfiawnder buan, a *Trawsnewid Adsefydlu*). Rydym yn adolygu adroddiadau llys yn fwy manwl yn ein harolygiad thematig o waith y llys, sydd wedi ei ddechrau.

Rhaid i wasanaethau prawf asesu pobl yn drwyadl wedi iddynt gael eu dedfrydu, cynllunio gweithgarwch fwyaf tebygol o leihau risg unigolyn o aildroseddu a'u trosglwyddo o fewn y diwrnodau sydd ar gael. Os nad ydynt yn gwneud hyn yn dda caiff hyder y dedfrydwr ei danseilio. Roeddem wedi canfod nifer o ddiffygion a phrinder amlwg o ran ysgogiad neu gyfeiriad mewn cryn nifer o achosion. Mewn dros un achos allan o ddeg, nu fu unrhyw weithgarwch pwrpasol o gwbl. Roeddem wedi canfod arwyddion cynnar o leihad yn hyder y dedfrydwr.

Mae tyndra anghysurus fan hyn, perthynas symbiotig rhwng paratoi'r gorchymyn a'r hyn sy'n cael ei drosglwyddo, gyda'r system yn gadael dedfrydwyr i ymgymryd â dedfrydau nad ydynt yn hollol hyderus yn eu cylch. Roeddem wedi canfod methiant i orfodi rhai gorchmynion oedd eu hangen, ac roedd hyder y dedfrydwr wedi ei effeithio gan bresenoldeb isel yn yr achosion a gafodd eu dychwelyd i'r llys.

Dylai amrediad eang o wasanaethau fod ar gael ar gyfer anghenion amrywiol. Roeddem wedi canfod amrediad cyfyng o wasanaethau ar gael mewn gwirionedd, felly roedd penderfyniadau mewn achosion dan orfod yn anochel, ac yn aml yn bragmataidd. Mae cyfyngiadau ariannol yn atal gweithrediad llawn cadwyni cyflenwi ehangach rhai Cwmnïoedd Adsefydlu Cymunedol. Mae hynny'n ddealladwy, ond ychydig iawn roeddem wedi ei ganfod i gau'r bwch cyn unrhyw newid a ddaw i rym gan adolygiad y llywodraeth o'r gwasanaethau prawf.

Rwyf wedi cynnig sylwadau eisoes ar y systemau TG hen ffasiwn sydd yn gyffredin yn y gwasanaethau prawf ac nid wyf am ail-ddweud fy hun heb eisiau, ond mae'r problemau yn y maes hwn yn ddigon i'ch gwylltio. Menter newydd yw'r gofynion gweithgarwch adsefydlu ac mae'r systemau yn ei chael yn anodd eu cefnogi mewn dull dibynadwy a chyson. O ganlyniad, mae cofnodion yn ddryslyd ac fel arfer yn anghywir.

Mae gan y gorchmynion hyn gryn botensial. Bydd TG gwell, mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd i Gwmnïoedd Adsefydlu Cymunedol a chadwyni cyflenwi mwy eang i gyd yn helpu i drosglwyddo'r potensial hwnnw, ond mae tensiynau cynhenid yn parhau, gan fod angen i ddedfrydwyr fedru dedfrydu'n hyderus - gyda digon o wybodaeth, a hefyd sicrhau y bydd y gwasanaethau prawf yn trosglwyddo'n ddigonol ymhob agwedd berthnasol. Yn y pen draw, os na fydd trosglwyddiad gwasanaethau prawf yn gwella'n sylweddol, ni fydd amcanion polisi'r llywodraeth yn cael eu cwrdd.



Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf EM

Chwefror 2017

Cynnwys

	Rhagair	3
	Ffeithiau allweddol	6
	Egluro'r gofynion gweithgarwch adsefydlu	7
	Crynodeb gweithredol	9
	Argymhellion	12
1	Cyflwyniad	13
	1.1 Pam y thematig hwn?	13
	1.2 Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu - y manyllion	13
	1.3 Nodau ac amcanion	13
	1.4 Amlinelliad o'r adroddiad	14
2	Dedfrydu GGA – cysylltiad llys GPC	15
	2.1 Gwybodaeth ar gyfer dedfrydu	15
	2.2 Galluogi i'r llys benderfynu y ddedfryd fwyaf priodol	16
	2.3 Sawl diwrnod i'w gorchymyn?	17
	2.4 Hyder y dedfrydwr	18
	2.5 Casgliadau a goblygiadau	18
3	Rheoli GGA – cynllunio a throsglwyddo	20
	3.1 Asesiad	20
	3.2 Cynllunio	20
	3.3 Cynnydd ac adolygiad	21
	3.4 Amddiffyn y cyhoedd	23
	3.5 Canlyniadau	23
	3.6 Casgliadau a goblygiadau	24
4	Darparu GGA – strategaeth a chynnwys	25
	4.1 Cardiau cyfradd a chyfarwyddiaduron gwasanaeth	25
	4.2 Darpariaeth fewnol gan y CAC a'r GPC	25
	4.3 Darpariaeth allanol	27

4.4 Rheoli ansawdd a gwerthuso	29
4.5 Casgliadau a goblygiadau	29
5 Rheoli Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu – ymrwymiad, gorfodaeth a chofnodi	31
5.1 Amrywiaeth, ymrwymiad ac ysgogiad	31
5.2 Nifer y diwrnodau a drosglwyddwyd	32
5.3 Disgwyliadau troseddwr	32
5.4 Gorfodaeth	33
5.5 Problemau gyda diffinio GGA	35
5.6 Problemau gyda chofnodi GGA	37
5.7 Casgliadau a goblygiadau	39
Atodiad 1: Geirfa	40
Atodiad 2: Methodoleg	43
Atodiad 3: Cydnabyddiaethau	45

Ffeithiau allweddol

Chwefror 2015	Roedd gofynion gweithgarwch adsefydlu ar gael i'r llysoedd o Chwefror 2015.
19,021	Y nifer o gychwyniadau cymunedol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig gan gynnwys gofyniad gweithgarwch adsefydlu rhwng Ebrill a Mehefin 2016 ¹ .
36%	Canran gorchmynion cymunedol cychwynnol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig yn cynnwys gofyniad gweithgarwch adsefydlu rhwng Ebrill a Mehefin 2016 Error! Bookmark not defined..
44%	Canran y cynnydd yn y defnydd o ofynion gweithgarwch adsefydlu ar gyfer gorchmynion cymunedol yn ystod y cyfnod o Ebrill-Mehefin 2015 hyd at Ebrill-Mehefin 2016 Error! Bookmark not defined..
112%	Canran y cynnydd yn y defnydd o ofynion gweithgarwch adsefydlu ar gyfer gorchmynion dedfrydau gohiriedig yn ystod y cyfnod o Ebrill-Mehefin 2015 hyd at Ebrill-Mehefin 2016 Error! Bookmark not defined..
28	Cyfartaledd y nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch a orchmynwyd yn y 72 o achosion roeddem wedi eu harolygu.
22%	Canran y diwrnodau gweithgarwch a orchmynwyd oedd wedi eu trosglwyddo ar ôl 9 mis yn y 72 achos roeddem wedi eu harolygu.

¹ Ystadegau Llwyth Achos Rheoli Troseddwyr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016 (Cymru a Lloegr).

Gofynion gweithgarwch adsefydlu wedi eu hegluro

Cyflwyno gofynion gweithgarwch adsefydlu

Wrth gyflwyno gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd gohiriedig, gall llys gynnwys gofyniad gweithgarwch adsefydlu - hynny yw, gofyniad bod y diffynnydd yn cyfrannu at weithgarwch i leihau'r disgwyliad o droseddu eto. Gelwir gofynion gweithgarwch adsefydlu'n gyffredinol yn GGA.

Cafodd GGA eu cyflwyno yn 2015. Cyn hynny, byddai gorchymynion llys yn cael eu defnyddio i nodi'n fanwl y math o weithgarwch oedd i ddigwydd a'r nifer o ddiwrnodau fel ei gilydd, ond nawr ond y nifer uchaf o ddiwrnodau o weithgarwch sydd yn rhaid eu nodi. Mae hyn yn caniatáu i'r gweithgarwch penodol gael ei benderfynu yn dilyn asesiad mwy trylwyr ar ôl y ddedfryd a chyfeirio at y gwasanaethau prawf, ac yna eu diwygio os oes angen. Gall diwrnod gweithgareddau fod o unrhyw hyd, o lai nag awr hyd at un diwrnod, yn ôl hyd y sesiwn.

Nid yw'r ystyriaethau y dylai'r llys eu hystyried wrth benderfynu ar y nifer uchaf o ddiwrnodau GGA ar gyfer unigolyn wedi eu nodi mewn deddfwriaeth, ond mae'r Ddeddf alluogi² yn ei gwneud yn glir mai pwrpas pennaf GGA yw adsefydlu. Dylai'r llys hefyd ystyried natur y troseddu, gan y gall fod gan GGA swyddogaethau heblaw adsefydlu, ac yn wir gall y gorchymyn gynnwys gofynion cosbedigaethol eraill (er enghraifft gwaith di-dâl).

Wrth ddeddfu ar gyfer GGA, nod y llywodraeth oedd sicrhau defnydd hyblyg ac effeithiol o ddeddfydu er mwyn lleihau troseddu eto, gan ei bod yn ceisio annog gwaith arloesol o dan drefniadau newydd ar gyfer trosgwlyddo gwasanaethau prawf, a gyflwynwyd tua'r un adeg.

GGA yn cael eu gweithredu

Mae gan GGA le blaenllaw mewn deddfydu cymunedol ar gyfer adsefydlu, ac wedi iddynt ddisodli gofynion goruchwyllo a gweithgarwch, yn ôl y bwriad, dyma'r prif gyfrwng ar gyfer y rhan fwyaf o weithgarwch adsefydlol. Mae gorchymynion sydd yn galw am raglenni ymyriad penodol (a elwir yn rhaglenni achrededig - tybir eu bod yn effeithiol o ran lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu) a hefyd driniaethau am alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl yn llai cyffredin o lawer, fel mae Tabl 1 yn dangos.

Tabl 1: Y gyfradd o orchymynion cymunedol a gorchymynion dedfrydau gohiriedig a wnaed yn 2015/2016 gyda gofynion penodol wedi eu cynnwys³.

Gweithgarwch Adsefydlu	29%
Rhaglen Achrededig	8%
Triniaeth am Alcohol/Cyffuriau/Iechyd Meddwl	8%

GGA yn eu cyd-destun

Wrth gyflwyno GGA, cafodd Ymddiriedolaethau Prawf eu gwasgaru a chafodd sefydliadau newydd - Cwmnïoedd Adsefydlu Cymunedol (CAC) a Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) - eu creu i gyflwyno gwasanaethau prawf. Bu'r pontio'n heriol, a hyd yma mae'r perfformiad yn amrywiol. Yn ein harolygiadau rheolaidd rydym wedi canfod bod ansawdd gwaith y GPC yn dderbyniol ar y cyfan

² Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 2014.

³ Ystadegau Llwyth Achos Rheoli Troseddwy'r, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016 (Cymru a Lloegr). Noder nad yw'r gofynion yn annibynnol ar ei gilydd a bod rhai gorchymynion yn cynnwys gofyniad gweithgarwch adsefydlu a hefyd rhaglen achrededig a/neu ofyniad am driniaeth

(ond mae eithriadau a diffygion nodedig) yn gymaint â bod CAC yn aml yn ei chael hi'n anodd i drosglwyddo gwaith o ansawdd da yn gyson.

Yn gyffredinol rydym yn canfod CAC gyda llwythi achosion uchel, amrwyiol neu newidiol ar gyfer rhai staff proffesiynol, a diffyg sylw wedi ei roi mor belled i arolygu staff a sicrwydd ansawdd. Mae diffygion eraill cyffredin yn cynnwys asesiad neu reolaeth annigonol wedi hynny o'r risg o niwed i eraill, gouchwyliaeth annigonol neu anghyson o ddefnyddwyr gwasanaethau ac - yn arbennig o berthnasol yma - ymyriad bwriadol annigonol sydd yn debyg o leihau tebygolrwydd unigolyn o droseddu eto.

Mae'r newid i drefniadau newydd wedi bod yn anodd iawn ac, i gymhlethu pethau, mae diffygion llwyth gwaith wedi arwain at gyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd i CAC ac amharodrwydd i ymrwymo i'r trefniadau a gytunwyd gyda darparwyr eraill sydd eu hangen i gefnogi GGA a throsglwyddiadau eraill. Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu am ddosrannu gorchmynion GGA (fel rhwng y CAC a'r GPC) ond mae'r CAC yn cario'r rhan fwyaf o'r achosion hyn.

Dyma'r cyd-destun ar gyfer ein harolygiad o'r GGA.

Crynodeb gweithredol

Dedfrydu GGA - cyswllt llys

Yn y rhan fwyaf o achosion a arolygwyd roedd y llys wedi derbyn adroddiad cyn dedfrydu - fel y dylai - cyn gwneud GGA. Nifer fechan yn unig gafodd eu gwneud heb adroddiad. Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau o ansawdd digonol i hysbysu'r llys am y ffactorau cysylltiedig â'r troseddu oedd angen mynd i'r afael â hwy; ond nid oeddent o reidrwydd yn cynnwys yr wybodaeth oedd ei hangen ar y llys i benderfynu ai GGA oedd y ffordd orau i gyrraedd y nod hwn, na chynnig cyngor ar y nifer uchaf o ddiwrnodau GGA i'w cynnwys, pe byddai'r llys yn penderfynu gwneud GGA.

Nid oeddem wedi canfod unrhyw gydberthyniad syml rhwng difrifoldeb y troseddu a'r nifer o ddiwrnodau a orchmynydd. Yn ddelfrydol dylai'r nifer o ddiwrnodau berthyn i'r gweithgarwch disgwylidig, ond roedd yn anodd i staff cyswllt roi amcangyfrif manwl neu arweiniad i'r llys. Roedd staff cyswllt y llys yn gweithio heb unrhyw sail resymegol ar gyfer y ffactorau y dylent eu hystyried, ac nid oedd arweiniad clir ar sut i benderfynu ar y nifer uchaf o ddiwrnodau i'w cynnig. I gymhlethu pethau, yn aml nid oeddent yn ymwybodol o'r prosiectau go iawn y medrid eu defnyddio mewn achos neilltuol, ac felly eu gofynion o ran amser.

Yn ymarferol, roeddem wedi canfod bod y nifer uchaf o ddiwrnodau a orchmynydd ychydig yn uwch na'r rhai a gynigiwyd, ac mewn rhai achosion roedd y ddau'n sylweddol fwy na'r hyn roeddem yn ystyried oedd ei angen. Pan gafodd y math o droseddu a natur y dasg adsefydlol eu hystyried, yn y rhan fwyaf o achosion roeddem wedi eu harolygu roedd nifer y diwrnodau GGA yn rhesymol, a bron bob amser yn ddigonol i gwblhau'r maint o waith oedd ei angen.

Roeddem wedi canfod rhwydd hynt i or-ddefnydd posibl o GGA yn lle rhaglenni achrededig a gofynion triniaethau. Roedd y nifer cynyddol o achosion a aseswyd ac a ddedfrydwyd ar y diwrnod ynghyd â phwysau gwaith yn golygu nad oedd gan staff amser bob tro ar gyfer yr asesiadau mwy manwl oedd eu hangen ar gyfer rhai gofynion eraill. O ganlyniad efallai bod tuedd i gynnig GGA fel dewis. Roedd y lleihad mewn argaeledd rhaglenni achrededig mewn rhai lleoedd yn debyg hefyd o arwain at gynnydd mewn GGA.

Rheoli GGA - cynllunio a throsglwyddo

Mae GGA yn galw am gynnal asesiadau manwl ar ôl dedfrydu ac yn dilyn dyrannu'r achos i CAC neu i'r GPC. Roeddem wedi canfod bod yr asesiadau hynny'n annigonol mewn gormod o achosion. Mae'r rhain yn ganolog gan eu bod yn cadarnhau anghenion y defnyddiwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r drosedd ac yn penderfynu cynllunio gweithredu ac ymyriad i'w throsglwyddo trwy'r gofyniad. Maent yn arbennig o angenrheidiol yn yr achosion hynny lle ceir ond ychydig o wybodaeth am y troseddwr trwy broses gyswllt y llys.

Ar y cyfan roedd natur troseddau'r defnyddwyr gwasanaeth a'r rhesymau amdanynt wedi eu nodi'n gywir, ond roedd penderfyniadau am y gwaith oedd i'w wneud yn dueddol o fod yn bragmataidd ac wedi eu dylanwadu'n fwy gan y gweithgarwch oedd ar gael yn hytrach na'r ffactorau oedd wedi eu cysylltu'n fwyaf amlwg â'r troseddu, eto nid dyma fwriad polisi'r llywodraeth. Ambell dro roedd ffactorau oedd yn llai cysylltiedig â throseddu'n cael eu blaenoriaethu. Ar adegau nid oedd unrhyw weithgarwch wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r ffactorau oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r troseddu, ac yn y mwyafrif o achosion nid oedd digon o gynnydd wedi digwydd i fynd i'r afael â hwy.

Roedd angen mwy o sylw ar faterion ynghylch amddiffyn y cyhoedd wrth gynllunio a throsglwyddo GGA. Roedd llawer o'r achosion y buom yn edrych arnynt wedi eu dedfrydu am ymddygiad oedd yn peri niwed, ac yn aml nid oedd hyn yn cael digon o sylw.

Roedd cynlluniau dedfrydu yn y cofnod TG perthnasol (y System Asesu Troseddwr) yn aml yn isafol ac yn anaml y byddent yn cynnwys digon o fanylion ynghylch ffactorau cysylltiedig â'r troseddu, eu gweithgarwch perthnasol, a sawl diwrnod gweithgarwch fyddai'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn adlewyrchu'n rhannol swyddogaeth strwythur cynllunio'r ddedfryd yn y feddalwedd, gan nad oedd wedi ei gynllunio i ddarparu'r math o gynllun roedd ei angen ar gyfer trosglwyddo GGA. Y cynlluniau gorau oedd y rhai hynny a gwblhawyd gan ddefnyddio dogfennau annibynnol.

Pan ddaeth yn fater o drosglwyddo, roedd diffyg ysgogiad a chynnydd gwirioneddol yn ystod y ddedfryd, gyda threfniadau a throsglwyddo go iawn yn fwy llac o lawer na'r hyn a ragwelwyd gan y llywodraeth pan gafodd GGA eu cyflwyno. Roeddem wedi canfod diffyg disgyblaeth wrth osod, adolygu a chadw at gynlluniau, mynediad annigonol i ymyriadau gofynnol, a rheoli gwael ar y gorchymyn. O ystyried yr amser ers i'r dedfrydau yn yr achosion gael eu hadolygu, dylai mwy o'r gweithgarwch GGA a gynlluniwyd fod wedi ei drosglwyddo, a mwy o gynnydd wedi ei wneud tuag at y canlyniadau disgwylledig. Mewn rhai achosion, nid oedd yn debygol y byddai gweithgarwch GGA yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y ddedfryd.

Darparu GGA - strategaeth a chynnwys

Mae GGA yn cael eu ddarparu mewn ffyrdd tebyg i oruchwyliaeth a gofynion gweithgarwch blaenorol, i'r graddau ein bod wedi canfod bod hanner y gwaith cysylltiedig â throseddu'n cael ei ddarparu gan swyddogion cyfrifol fel rhan o'u cyswllt goruchwyllo rheolaidd. Roedd peth o hyn wedi ei strwythuro ac yn bwrpasol ac yn y manau hynny lle gwelwyd yn glir mai hwn oedd y model arfaethedig ar gyfer ei ddarparu roeddem wedi canfod ei fod wedi ei drefnu'n dda. Mewn manau eraill, ychydig o adnoddau oedd wedi eu neilltuo er mwyn datblygu pecynnau gwaith un i un i'w ddarparu'n fewnol. Roedd hyn yn golygu bod ansawdd y gwaith yn ddibynnol ar sgilau a phrofiad yr ymarferwr unigol, heb lyfrgell o adnoddau gwaith unigol ar gael i'w chyrru'n hawdd.

Roedd rhai CAC wedi trefnu bod y rhan fwyaf o wasanaethu GGA i'w darparu'n allanol, ond nid oedd pob un o'r gwasanaethau hyn yn eu lle, a beth bynnag roedd y modelau hyn yn dal i ystyried y byddai rhai materion yn cael eu trin ar sail fwy unigol. Prin yr ystyriwyd dewisiadau eraill yn y cyfamser, ac roedd ar staff angen dulliau mwy cefnogol a systematig o drosglwyddo GGA.

Roeddem wedi canfod bod yr amrediad o wasanaethau allanol ar y cyfan yn fwy cul nag yr oeddem wedi rhagweld, yn rhannol oherwydd trefniadau partneriaeth neu gontractau yn dod i ben cyn i rai eraill gael eu gosod yn eu lle. Roedd llawer o'r hyn oedd ar gael yn cymharu â'r hyn oedd ar gael mewn Ymddiriedolaethau Prawf. Roeddem wedi gweld engheiffiau o wasanaethau creadigol, defnyddiol, wedi eu hystyried yn ofalus, er eu bod yn cael eu sbarduno gan y darparwyr allanol eu hunain, yn hytrach na'r CAC.

Nid oeddem wedi canfod unrhyw reolaeth ansawdd penodol o weithgarwch a ddefnyddiwyd mewn GGA, nac unrhyw weithgarwch cenedlaethol cyfredol i werthuso effeithiolrwydd GGA.

Rheoli GGA – ymrwymiad, gorfodaeth a chofnodi

Nid oedd digon o sylw wedi ei roi i ffactorau amrywiaeth ac ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth.

Nid oedd digon o ddiwrnodau gweithgareddau GGA wedi eu trosglwyddo yn yr achosion y buom yn edrych arnynt. Nid oedd digon o ddiwrnodau wedi eu trefnu, ond gall hyder dedfrydwr gael ei danseilio os yw'r presenoldeb mewn diwrnodau gweithgarwch yn sylweddol is yn rheolaidd na'r uchafswm a orchmynyd.

Roedd yr ymateb i apwyntiadau a gollwyd yn ddiffygiol, gyda gormod o ddisgresiwn yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas ag absenoldeb a gorfodi. Roedd hyn yn arwain at ddiffyg cynnydd wrth drosglwyddo gweithgarwch GGA a gynlluniwyd a chyrraedd canlyniadau a fwriadwyd, ac roedd ganddynt effaith negyddol ar hyder dedfrydwr ynghylch gorchymynion yn cael eu gorfodi'n iawn.

Nid oedd digon o sylw wedi ei roi i reoli troseddwyd yn effeithiol, yn rhannol oherwydd newidiadau mewn llwythi achosion staff a diffyg arweiniad lleol i swyddogion cyfrifol ar sut dylai GGA gael eu weithredu a'u cofnodi. Roedd yr arweiniad lefel uchel a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ddefnyddiol, ond yn aml roedd effaith hyn ac unrhyw arweiniad lleol wedi ei golli ymhlith newidiadau a phwysau pwysicach neu uniongyrchol eraill.

Roeddem wedi canfod llawer o ddryswch ynghylch rheoli a chofnodi GGA, ac roedd hyn yn ailgyfeirio amser ac ymdrechion ymarferwyr. Mae gosod un gweithgarwch gofynion adsefydlu unigol yn lle gofyniad goruchwyllo gweithgarwch i ymgorffori'r ddwy swyddogaeth wedi cymhlethu'r fframwaith gyfreithiol, o leiaf cyn belled ac y caiff ei ddeall gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a staff prawf. Nid yw'r categorïau cyswllt gwahanol (diwrnodau gweithgarwch GGA ac apwyntiadau GGA) yn mapio'n hawdd i realiti gweithgarwch prawf, ac felly nid ydynt yn gosod y sail ar gyfer trosglwyddo ymyriadau adsefydlol yn fwy effeithiol.

Gwneir y problemau hyn yn waeth oherwydd diffyg natur ymarferol y brif system rheoli achosion, nDelius. Mae'n ôl-ddyddio deddfwriaeth GGA ac felly nid yw wedi ei gynllunio i gipio'r patrwm newydd o gysylltiadau. Mae addasiadau a gwelliannau wedi eu gwneud ond mae angen mwy fyth. Cyflwynwyd arweiniad, ond nid yw wedi bod yn effeithol wrth gynorthwyo ymarferwyr i gadw cofnodion cywir.

Argymhellion

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- ystyried yr wybodaeth reoli y dylai ei chasglu er mwyn adolygu a yw gofynion gweithgarwch adsefydlu'n gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud.

Dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr:

- ddarparu arweiniad clir i staff cyswllt llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar y ffactorau i'w hystyried wrth argymhell y nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch ar gyfer gofyniad gweithgarwch adsefydlu
- darparu arweiniad penodol ar y mathau o gyswllt y gellir eu cyfrif tuag at y gwahanol elfennau mewn gofyniad gweithgarwch adsefydlu
- sicrhau bod systemau rheoli achosion yn darparu cofnod cywir o ddiwrnodau gweithgarwch ar gyfer gofyniad gweithgarwch adsefydlu ac apwyntiadau.

Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

- gwneud yn siŵr bod gofynion gweithgarwch ailsefydlu yn cael eu cynnig yn hytrach na gofynion eraill, yn unig lle byddant yn caniatáu adsefydliad fwy effeithiol y troseddwr
- gynhyrchu pob copi o adroddiadau llafar cyn dedfrydu fel dogfen wedi ei theipio.

Dylai'r Cwmnïoedd Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

- sicrhau bod gan staff cyswllt llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wybodaeth ddigonol am y gweithgarwch sydd ar gael i wneud cynigion deallus ar gyfer gofynion gweithgarwch adsefydlu
- sicrhau bod gofynion gweithgarwch adsefydlu'n dechrau'n brydlon, a bod eu cynnydd yn cael eu hadolygu'n gyson
- darparu llyfrgell hygyrch o ddeunyddiau modiwlwr i ymarferwyr eu defnyddio'n unigol ac mewn grwpiau, i drosglwyddo gwaith effeithiol wedi ei strwythuro sydd yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o ffactorau cysylltiedig â throseddu.
- sicrhau ymateb yn briodol i bob absenoldeb gan droseddwr, beth bynnag yw'r achos, a bod gorchmynion yn cael eu gorfodi pan fo angen gwneud hynny.

1. Cyflwyniad

1.1. Pam y thematig hwn?

Mae ein profiad mewn arolygiadau diweddar o wasanaethau prawf wedi awgrymu i ni nad yw GGA yn cael eu trosglwyddo'n ddigon da, neu fel yr oedd y llywodraeth wedi rhagweld. Yn benodol, roeddem yn bryderus nad oedd digon o weithgarwch yn cael ei wneud gan ddarparwyr prawf i weithredu'r gorchmynion llys cyffredin hyn, a chwrdd â nodau polisi GGA y llywodraeth.

1.2. GGA – y manylion

Roedd *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* (DAT) wedi cyflwyno'r GGA fel un o'r gofynion y gellir eu gosod mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, o 01 Chwefror 2015. Daeth yn gyffredin yn fuan iawn, gyda bron traean gorchymynion perthnasol 2015/2016 yn cynnwys darpariaeth GGA⁴.

Mae'r GGA yn dweud bod gofyn i'r troseddwr '... gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y swyddog cyfrifol i fynychu apwyntiadau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu'r ddau'⁵. Mae hyn yn caniatáu i'r swyddog cyfrifol ofyn i'r troseddwr gadw apwyntiadau gydag ef/hi (neu unigolyn arall) er mwyn gwneud gwaith i hybu ei adsefydlu a'i ymataliad, waeth beth fo (ac yn ychwanegol at) y nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch a orchmynwyd gan y llys. Mae hyn yn dangos y gwahaniaeth rhwng apwyntiadau GGA (gyda'r swyddog cyfrifol neu unigolyn arall) a diwrnodau gweithgarwch GGA. Gall gweithgarwch fod o unrhyw hyd yn ôl hyd y sesiwn, o lai nag awr y dydd hyd at un diwrnod, ond maent wedi eu cyfyngu i'r nifer uchaf o ddiwrnodau a nodir yn y gorchymyn. Nid oes gofyniad i'r swyddog cyfrifol ddefnyddio'r nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch a orchmynwyd.

Nid yw cynnwys yr apwyntiadau a'r diwrnodau wedi eu nodi'n fanwl gan y Ddeddf na gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (GCRhT). Mae'r GGA cyfan yn dal mewn grym tan ddiwedd (neu ddirymiad neu ddiwygiad) y gorchymyn ei hun, beth bynnag yw'r nifer o ddiwrnodau gweithgarwch sydd wedi eu cwblhau. Mae'r rhan fwyaf o orchmynion gyda GGA yn cynnwys gofynion ychwanegol eraill.

1.3. Nodau ac amcanion

Nod yr arolygiad hwn oedd edrych yn fwy manwl ar sut mae GGA yn cael eu gorchymyn yn y llys ac yna eu trosglwyddo fel y medrem weld i ba raddau yr oedd ein pryderon cychwynnol wedi eu cadarnhau. Yn benodol roeddem am wybod y canlynol.

1. A yw trefniadau cyswllt GPC yn galluogi llysoedd i wneud GGA addas ym mhob achos perthnasol, i gefnogi adsefydlu troseddwyr a'u hatal rhag troseddu pellach?
2. A yw asesu a chynllunio ar gyfer GGA yn galluogi gosod amcanion a gweithgareddau addas i sicrhau adsefydlu llwyddiannus?
3. A yw trosglwyddo GGA yn cefnogi cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd tuag at adsefydlu llwyddiannus?
4. Yn benodol, a yw trosglwyddo GGA yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr gwasanaeth a'u cadw o dan adolygiad?

⁴Ystadegau Llwyth Achos Rheoli Troseddwyr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016 (Cymru a Lloegr). Noder nad yw'r gofynion yn annibynnol ar ei gilydd a bod rhai gorchymynion yn cynnwys gofyniad gweithgarwch adsefydlu a hefyd rhaglen achrededig a/neu ofyniad am driniaeth

⁵ *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* Adran 15 (3)(1).

5. A yw GGA yn cael eu trosgwlyddo, a lle mae angen eu gorfodi, yn unol â disgwyliadau'r llys?
6. Oes tystiolaeth bod GGA wedi lleihau'r tebygolrwydd o droseddu eto ac yn cyfrannu at amddiffyn y cyhoedd?

1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

Pennod	Cynnwys
2. Dedfrydu GGA - cyswllt llys GPC	Dedfrydu GGA a chyfraniad staff cyswllt llys GPC at y broses hon, a sut y caiff ei chefnogi gan wybodaeth gan y CAC.
3. Rheoli GGA - cynllunio a throsglwyddo	Rheoli GGA o safbwynt rheoli troseddwr gan edrych ar eu cynllunio a'u trosglwyddo, a chyflawni'r canlyniadau a nodwyd tuag at adsefydlu.
4. Darparu GGA - strategaeth a chynnwys	Y strategaeth a'r modelau ar gyfer darparu gweithgarwch a gwasanaethau ar gyfer GGA, ac enghreifftiau o'r cynnwys a ganfuom yn yr arolygiad.
5. Rheoli GGA – ymrwymiad, gorfodaeth a chofnodi	Rheoli GGA o safbwynt ymrwymiad y defnyddiwr gwasanaeth, rheoli cydymffurfiaid a gorfodaeth, a phroblemau'n deillio o'r modd y caiff GGA eu diffinio a'u cofnodi.

2. Dedfrydu GGA – cyswllt llys GPC

Cyflwyniad

Buom yn edrych ar gofnod prawf y broses ddedfrydu ymhob un o'r 72 achos yn ein sampl. Buom yn cyfweld dedfrydwyr, rheolwyr timau cyfreithiol a staff a rheolwyr cyswllt prawf, yn arsylwi staff cyswllt llys y GPC wrth eu gwaith, ac yn ystyried yr wybodaeth a'r arweiniad oedd yn sail i'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y llys.

Buom yn edrych ar wneud GGA yn hytrach na gofynion eraill, y nifer o ddiwrnodau gweithgarwch GGA a orchmynyd, a chymryd safbwyntiau ar GGA gan sampl o ddedfrydwyr.

2.1. Gwybodaeth ar gyfer dedfrydu

Dylai trefniadau cyswllt prawf mewn llysoedd gefnogi creu GGA addas ym mhob achos perthnasol. Cyflwynwyd adroddiad i'r llys gan y GPC fel rhan o'r broses ddedfrydu yn 64 o'r 72 achosion a archwiliwyd. Darparwyd rhai o'r adroddiadau'n ysgrifenedig, tra bod eraill wedi eu cyflwyno ar lafar, gyda chofnod ysgrifenedig ar gofnod yr achos prawf. Roedd ein sampl ond yn cynnwys achosion lle roedd y llys wedi penderfynu cynnwys GGA yn y gorchymyn cymunedol neu'r gorchymyn dedfryd ohiriedig, er mewn dau achos roedd yr adroddiad wedi cynnig dull gwahanol o weithredu ond er hyn roedd y llys wedi cyflwyno dedfryd gymunedol yn cynnwys GGA.

Yn yr wyth achos dros ben roeddem wedi eu hasesu, nid oedd adroddiad wedi ei baratoi. Yn saith o'r rhain roedd yn ymddangos bod y GGA wedi ei wneud heb gyfeirio at staff cyswllt llys y GPC, tra mewn un roedd y troseddwr wedi gwrthod cydweithredu ynghylch paratoi adroddiad.

Roeddem wedi ystyried a oedd yr adroddiadau roeddem yn eu darllen yn darparu digon o wybodaeth i'r llys ynghylch y ffactorau penodol cysylltiedig â throsteddu y gellid mynd i'r afael â hwy gyda GGA. Roeddem wedi canfod bod tri o'r pedwar adroddiad yn gwneud hynny. Roedd cyfradd debyg yn dangos y materion penodol byddai'r GGA yn medru mynd i'r afael â hwy. Yn ein barn roedd bron yr holl adroddiadau wedi nodi'r ffactorau oedd yn gysylltiedig â throsteddu'r unigolyn yn gywir.

Roedd Cyfarwyddyd Prawf GCRhT58/2014 ar GGA a gyflwynwyd ym mis Hydref 2014 yn gofyn bod: 'yn rhaid i'r GPC roi ystyriaeth ddyledus i anghenion adsefydlol/troseddogenig troseddwr trwy asesiad wedi ei gysylltu ag ymddygiad troseddol a risg wrth ystyried argymell GGA gan gynnwys cadarnhau argaeledd gweithgareddau'.

Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau yn ein sampl wedi cwrdd â'r gofyniad hwn, er yn y rhan fwyaf nid oedd cofnod o'r broses asesu ei hun ar gael i'r swyddog cyfrifol a oedd, wedi hynny, wedi goruchwylio'r achos.

Roedd pob un ac eithrio dau o'r adroddiadau wedi cynnwys GGA yn y gorchymyn llys. Mewn bron hanner, roedd yr awdur wedi mynd ymhellach ac awgrymu gweithgarwch gwasanaeth neu ymyriad penodol y medrid ei gyflawni o fewn i'r GGA. Nid oedd y mwyafrif, fodd bynnag, yn cynnwys cadarnhad pendant o argaeledd ac mewn sawl achos nid oedd staff cyswllt y llys yn gwybod yr hyn oedd ar gael i'w ddefnyddio mewn achos neilltuol. Rydym yn disgwyl bod gan staff prawf yn y llys wybodaeth am weithgarwch GGA sydd ar gael, gyda manylion am y ffactorau cysylltiedig â'r drosedd y meddir mynd i'r afael â hwy, y cynnwys a'r trefniadau ar gyfer eu cyflwyno.

Yn Huddersfield, roedd staff cyswllt y llys yn dweud eu bod yn blaenoriaethu nodi'r materion cywir i fynd i'r afael â hwy, ond bod pwysau gwaith yn golygu nad oedd amser ar gael i feddwl am y gweithgarwch penodol y medrid ei ddefnyddio yn y GGA. Yn Newcastle upon Tyne a Chaerlŷr, roeddem wedi canfod bod llyfrynau 'cardiau cyfraddau' wedi eu darparu gan y CAC priodol ond roedd staff cyswllt y llys wedi sylwi bod llawer o'r cynnwys heb fod ar gael i'w drosglwyddo. Yn Sir Gâr roedd staff cyswllt y llys wedi dweud nad oeddent wedi cael manylion ynghylch y gweithgarwch GGA oedd ar gael ar y pryd, ond o leiaf roeddent wedi mynd ati i chwilio drostynt eu

hunain, ac roeddem yn falch bod dedfrydwyr lleol wedi adrodd bod y CAC a'r GPC, mewn cyfarfod cyswllt prawf, wedi egluro'r mathau gwahanol o weithgarwch GGA oedd ar gael yn lleol.

Tra bod y dedfrydwyr y buom yn siarad â hwy'n cydnabod nad oedd angen iddynt wybod union gynnwys unrhyw GGA unigol, roedd llawer wedi dweud ei bod o gymorth ac yn galonogol gwybod am y math o weithgarwch a wnaed mewn GGA, barn a adleisiwyd yn gryf gan Gymdeithas yr Ynadon yn eu hymateb i'n cais am dystiolaeth. Rôl y GPC yw hwyluso cyfarfodydd rhwng dedfrydwyr a CAC, ond ychydig o dystiolaeth roeddem wedi ei chanfod o ddiwyddiadau cyswllt amserol i gyfarwyddo dedfrydwyr ynghylch sut roedd GGA yn cael eu trosglwyddo a'r gweithgarwch oedd ar gael.

Enghraifft o arfer gwael:

Yn Newham, dywedodd staff cyswllt y llys nad oedd ganddynt wybodaeth ysgrifenedig i'w defnyddio gyda dedfrydwyr a dim copïau o'r cardiau cyfradd i'w defnyddio eu hunain. Roedd dedfrydwyr yn cwyno nad oedd unrhyw ddiwyddiadau gan y CAC i ddangos sut roeddent yn trosglwyddo GGA. Roeddent wedi adrodd eu bod yn "anfodlon iawn" bod y CAC heb fynd i rai o'r cyfarfodydd cyswllt roeddent wedi eu gwahodd iddynt.

2.2. Galluogi i'r llys benderfynu y ddedfryd fwyaf priodol

Nid oedd yr adroddiadau a welsom yn galluogi'r llys bob amser i roi dyfarniad ynghylch y ddedfryd gymunedol fwyaf addas.

Mae cynigion ar gyfer rhaglen achrededig neu driniaeth am alcohol, cyffuriau neu iechyd meddwl yn galw am asesiad mwy manwl o addasrwydd y diffynnydd i'r ymyriad, ac efallai bod angen gwybodaeth benodol hefyd gan asiantaethau eraill, er enghraifft manylion gan yr heddlu am alwadau ynghylch trais domestig, neu asesiad iechyd meddwl. Mewn cyferbyniad, gall ffactorau y meddir mynd i'r afael â hwy trwy ddefnyddio GGA gael eu hasesu'n fwy cyflym gan amlaf, hyd yn oed os byddai hyn yn ymyriad llai effeithiol.

Mae gofynion cyfiawnder buan yn berthnasol yma, ynghyd â'r bwriad polisi i gynyddu nifer yr achosion llys y deliwyd â hwy adeg y gwrandawriad cyntaf. Roeddem yn awyddus i weld a oedd y gyfradd uchel o adroddiadau a gwblheir ar hyn o bryd yn y llys ar ddiwrnod y dedfryd (yn hytrach nag ar ohriad) yn dylanwadu ar y ddedfryd arfaethedig. Mewn ambell fan mae'r effaith wedi bod yn gadarnhaol fel y gwelir yn yr enghraifft ganlynol.

Enghraifft o arfer da:

Yn Newcastle roeddem wedi canfod nad oedd cyfnodau gohirio byrrach wedi peri problem, ac roeddent wedi sbarduno newidiadau mewn arfer. Roedd staff cyswllt y llys wedi egluro bod cynnydd wedi digwydd yn y paratoi cyn-gwrandawriad, megis gwirio gydag unedau trais domestig yr heddlu, adrannau gwasanaethau plant a derbyn gwybodaeth gan y swyddogion cyfrifol mewn achosion oedd eisoes o dan oruchwyliaeth. Roedd hyn yn eu galluogi i ddechrau archwilio cynigion dedfrydau posibl cyn cyfarfod â'r diffynnydd ar ddiwrnod y dedfryd.

I'r gwrthwyneb, roedd staff cyswllt y llys mewn rhai manau eraill y buom yn ymweld â hwy yn dweud nad oedd ganddynt amser i asesu diffynyddion yn llawn. Roedd y gofyniad asesiad mwy beichus i gefnogi argymell rhaglen achrededig yn creu tuedd o blaid argymell GGA. Dywedodd un swyddog cyswllt y llys wrthym bod y symudiad i gynyddu dedfryd ar y diwrnod wedi effeithio ar gynigion:

"Ydy, mae wedi... am ein bod yn gwneud asesiadau 'wrth fynd yn ein blaenau'. Oes gen i amser i wneud asesiadau? Nac oes! Felly mae mwy o gynigion GGA ar draul rhaglenni achrededig gan nad oes amser gennym i wneud yr asesiadau penodol (ar gyfer) gofynion rhaglenni achrededig. Os yw rhywun yn addas ar gyfer rhaglen achrededig yna dylem ychwanegu'r gofyniad hwn; fodd bynnag, nid oes amser gennym i wneud yr holl

asesu hyn ar y cychwyn. "

Roedd rhai aelodau o staff wedi dweud hyd yn oed pan fyddai rhaglen achrededig yn fwy effeithiol, gan fod angen i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio mwy o ymdrech ac ysgogiad i gwblhau rhaglenni achrededig, roedd yn haws i bawb gynnig GGA - yn enwedig pan nad oedd amser ganddynt ar gyfer yr asesiad rhaglen achrededig llawnach.

Nid oeddem wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth glir o hyn yn y sampl o achosion roeddem wedi eu harolygu, ond mae potensial i or-ddefnyddio GGA ar draul rhaglenni achrededig. Mewn un lle roeddem wedi ymweld ag ef roedd y CAC wedi adrodd am nifer fawr o achosion a ddylai fod wedi derbyn gofyniad rhaglen achrededig ond roedd wedi derbyn GGA yn lle hynny, ac roeddent wedi ceisio diwygio'r gorchmynion. Mewn lleoliad arall roedd darparwr ymyriadau camddefnyddio sylweddau wedi adrodd am leihad arwyddocaol yn y nifer o ofynion am driniaethau am alcohol a chyffuriau a orchmynwyd, a chynnydd mewn cyfeirio at eu gwasnaethau trwy GGA.

Gallai symud i ddefnyddio GGA yn hytrach na gofynion rhaglenni achrededig adlewyrchu newid mewn darpariaeth hefyd. Mewn ambell leoliad roedd argaeledd rhaglenni achrededig wedi lleihau, a'r rhai hynny gyda'r galw uchaf yn unig oedd bellach yn cael eu trosglwyddo. Yn Sir Gâr, er enghraifft, roedd natur wledig iawn yr ardal yn ei gwneud yn anodd o ran logisteg grŵp i drosglwyddo i niferoedd bychan. O ganlyniad roedd ond yn bosibl trosglwyddo cynnwys rhai o'r rhaglenni'n unigol, naill ai trwy ddefnyddio gofyniad rhaglen achrededig, neu fel arall trwy ddefnyddio GGA.

2.3. Sawl diwrnod i'w gorchymyn?

Amrediad y diwrnodau gweithgarwch GGA a argymhellwyd yn adroddiadau ein samplau oedd 10 - 60 niwrnod. Roedd yr amrediad a orchmynwyd gan y llysoedd yr un nifer (10 - 60 niwrnod) ond rydym yn ymwybodol o'n harolygiadau arferol o wasanaethau prawf, fel eithriad, bod GGA gyda chynifer â 365 diwrnod wedi eu gwneud. Ar gyfartaledd y nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch a orchmynwyd oedd 28 niwrnod, ychydig yn uwch na'r hyn a gynigiwyd yn yr adroddiadau (25 niwrnod). Mewn llawer o'r manau yr ymwelom â hwy roedd cyfartaledd y nifer uchaf o achosion a ddyrannwyd i'r GPC ychydig yn uwch nag mewn achosion a ddyrannwyd i'r CAC, sydd yn adlewyrchu bod yr achosion hynny'n nodweddiadaol o natur mwy difrifol, ond nid oeddem wedi canfod mai dyma oedd yr achos ymhob lle.

Mae'r ddeddfwriaeth a Chanllawiau Dedfrydu'r Llysoedd Ynadon⁶ yn gofyn bod effaith gyfyngol dedfryd (gan gynnwys eu holl ofynion) yn unol â difrifoldeb y drosedd, ond nid oedd yn glir sut y dylai nifer y diwrnodau GGA adlewyrchu neu gyfateb i difrifoldeb. Yng Nghanllawiau Cenedlaethol DAT y GPC (Chwefror 2015) cynigiwyd bandio GGA (gellid tybio ond nid yn ddiamwys ar gyfer y rhai sydd yn ysgrifennu adroddiad cyn dedfrydu (ACD)). Roedd y rhain yn cyfeirio at nifer cynyddol o ddiwrnodau cymesur â difrifoldeb trosedd (a nodir gan sgôr y Raddfa Ailddedfrydu Grŵp Troseddwyr (GAGT) rhagfynegydd trosedd eto ar sail risgiau sefydlog oedran, rhyw a hanes troseddol). Cafodd y cynnig neilltuol hwn ei dynnu o argraffiad dilynol y canllawiau a gyhoeddwyd yn Chwefror 2016, ac yn yr arolygiad hwn nid oeddem wedi canfod unrhyw gydb berthynas rhwng y nifer uchaf o ddiwrnodau a orchmynwyd a sgôr GAGT.

Roedd deddfwriaeth flaenorol wedi gosod terfyn o 60 ar y nifer uchaf o ddiwrnodau y medrid eu gorchymyn mewn gofyniad gweithgarwch. Tra bod y Ddeddf newydd heb osod y nifer uchaf o ddiwrnodau y gellid eu gorchymyn ar gyfer GGA, y nifer uchaf y daethom ar eu traws yn ystod yr arolygiad hwn oedd 60 niwrnod, yr un nifer â'r nifer uchaf yn y ddeddfwriaeth flaenorol, ac yn y bandiau a awgrymwyd yn gynharach gan ganllaw GPC. Roedd y canllaw, fodd bynnag, yn cyd-fynd â'r 60 niwrnod yn erbyn sgôr uchaf y GAGT (100%) ac uchafrif y ddedfryd gymunedol o 3 blynedd.

⁶ Y Cyngor Dedfrydu (2008) Canllawiau Dedfrydu Llys yr Ynadon (diweddarwyd 2015 a 2016).

I'r gwrthwyneb, roeddem wedi canfod achosion lle roedd gofyniad o hyd at 60 niwrnod wedi ei wneud mewn achosion â sgôr GAGT o 40% neu lai.

Gellir egluro hyn yn rhannol oherwydd nad yw staff cyswllt y llys yn cael gwybodaeth ddigonol am ymyriadau penodol a fyddai'n cael eu trosglwyddo gan GGA, ac felly'n cynnig uchafswm o ddiwrnodau ar sail eu barn o ddifrifoldeb y materion cysylltiedig â throsteddu roeddent yn eu dynodi, neu'r tebygolrwydd o'r unigolyn yn trosteddu eto, yn hytrach na'r nifer o ddiwrnodau sydd eu hangen i gwblhau ymyriad penodol. Mewn rhai achosion, roedd diffyg gwybodaeth am ymyriadau penodol yn golygu nad oedd y llys yn derbyn unrhyw sail resymegol ar gyfer y nifer o ddiwrnodau a gynigiwyd, ac yn ein barn roedd y nifer yn aml yn uwch nag oedd angen.

Ni ddaethom ar draws unrhyw arweiniad i staff cyswllt y llys ynghylch y defnydd o GGA ochr yn ochr â gofynion rhaglenni achrededig, lle medrai'r GGA ddarparu ar gyfer gwaith i atgyfnerthu dysgu ar y rhaglen, ac o bosibl gefnogaeth adsefydlol ar gyfer materion eraill. Heb unrhyw awgrym gan y GPC, mewn rhai achosion roedd y llys yn gorchymyn uchafswm uwch o lawer o ddiwrnodau na'r hyn oedd ei angen.

Ar y cyfan, fodd bynnag, o ystyried y difrifoldeb a'r math o drosteddu a natur y gwaith adsefydlol oedd ei angen, roeddem yn ystyried mewn mwy na thri allan o bedwar o'n hachosion sampl bod y nifer o ddiwrnodau GGA a gynigiwyd ac a orchymynwyd yn rhesymol. O'n persbectif ôl-ddedfrydu, ym mron pob un achos roeddem yn meddwl bod y nifer o ddiwrnodau a orchymynwyd yn ddigonol ar gyfer cwblhau'r rhaglen waith a oedd wedi ei chynllunio ar ôl hynny, er weithiau eu bod llawer yn fwy na'r hyn oedd ei angen.

Mae'n bosibl bod dedfrydwyr wedi gorchymyn nifer ychydig yn uwch o ddiwrnodau'n fwriadol er mwyn rhoi cyfle i'r swyddog cyfrifol gael nifer uwch o gyfarfodydd neu sesiynau, os oedd eu hangen. Os felly, roedd hyn yn ddefnydd synhwyrol a phriodol o'r ddeddfwriaeth, cyhyd ag nad oedd y nifer o ddiwrnodau a gynigiwyd yn ormodol. Roedd rhai swyddogion cyfrifol, fodd bynnag, yn aneglur ac yn pryderu am sut i ddelio gydag unrhyw ormodaeth o ddiwrnodau GGA nad oedd eu hangen.

2.4. Hyder dedfrydwr

Roedd y dedfrydwyr y buom yn siarad â hwy'n dweud, yn gyffredinol, eu bod yn fodlon gyda'r dull newydd o weithredu a gyflwynwyd gan y DAT. Mewn un llys dywedodd Cadeirydd y Fainc wrthym:

"Rydym yn ymddiried yn y gwasanaeth prawf i ddewis y cwrs cywir. Y swyddog prawf yw'r unigolyn rheng-flaen sydd yn delio ag ef. Rydym yn meddwl ei fod yn beth da bod y penderfyniadau ynghylch yr hyn i'w wneud â'r diwrnodau yn nwylo'r gwasanaeth prawf".

I'r gwrthwyneb, roedd Cymdeithas yr Ynadon wedi dweud wrthym y byddai derbyn mwy o wybodaeth gan CAC am eu gwasanaethau'n ffordd bwysig o wneud i ynadon deimlo'n fwy gwybodus ac felly'n fwy hyderus wrth drosglwyddo dedfrydau cymunedol. Yn eu harolwg diweddar ymhlith aelodau dywedodd bron i dri chwarter 'nad oeddent yn derbyn digon o wybodaeth ynghylch yr hyn mae trosteddwy'r yn ei wneud wrth gyflawni GGA⁷. Mae'r pwynt olaf hwn yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol, ac wrth gwrs ni fedr staff cyswllt llys y GPC ddweud yn bendant sut y byddai CAC yn gweithredu GGA penodol.

Roedd rhai dedfrydwyr y buom yn siarad â hwy'n awgrymu tra byddai ganddynt, yn hanesyddol, hyder llwyr bod unrhyw orchymyn a wnaed ganddynt wedi ei weithredu a'i orfodi'n briodol, erbyn hyn nid oeddent mor hyderus. Roedd y diffyg hyder hwn yn codi o argraffiadau ehangach bod rhai gorchymynion llys (gan gynnwys GGA) heb gael eu gorfodi'n gywir, yn hytrach nag amheuan ynghylch addasrwydd eu cynnwys. Roedd dedfrydwyr wedi mynegi'r un pryder am orfodi GGA yn

⁷ O arolwg mewnol o aelodau Cymdeithas yr Ynadon, Mehefin-Gorffennaf 2016 (Cymru a Lloegr).

ein harolygiad thematig diweddar o wasanaethau i ferched sydd yn troseddu⁸. Mae canfyddiadau pellach am orfodi wedi eu cynnwys yn Adran 5.4.

2.5. Casgliadau a goblygiadau

Mae gan GGA rôl arwyddocaol yn y symudiad i brosesau llys cyflymach trwy gynyddu'r gyfradd o achosion y gellir eu dedfrydu ar y diwrnod. Mae'r gofynion llai beichus yn yr adroddiad yn darparu arbediad cost potensial i'r GPC. Yn y mwyafrif o leoedd y buom yn ymweld â hwy yn yr arolygiad, fodd bynnag, roedd gwybodaeth lai manwl ar gael i ddedfrydwyr ac, yn dilyn hynny, i'r swyddog cyfrifol perthnasol, gyda risgiau o ganlyniad i hynny mewn rhai achosion.

Mae'r disgwyliad bod y rhan fwyaf o adroddiadau llys i gael eu cwblhau ar y diwrnod wedi gwella gwaith cyswllt llys da mewn ambell le, ond rydym yn bryderus bod staff CAC mewn lleoedd eraill wedi adrodd am nifer cynyddol wedi eu dedfrydu â GGA pan fyddai gofyniad gwahanol wedi bod yn fwy effeithiol. Mae GGA yn cael eu defnyddio yn lle rhaglenni achrededig. Nid yw hyn yn arwain yn anochel at ymyriad llai priodol neu effeithiol, gan fod DAT yn amlwg yn caniatáu i ddiwrnodau GGA gael eu defnyddio i drosglwyddo 'gweithgarwch sydd yn ffurfio rhaglen achrededig', fel dewis arall i orchymyn llys ar gyfer rhaglen achrededig. Mae hyn yn tybio, fodd bynnag, fod y nifer o ddiwrnodau gweithgarwch a orchymynnir yn ddigonol, ac ymhellach y gall CAC ddarparu'r rhaglen a'u bod yn fodlon gwneud hynny am y ffi ar gyfer lleoliadau GGA, sydd yn sylweddol is na'r ffi ar gyfer rhaglenni achrededig. Ychydig o dystiolaeth o hyn a welsom mewn arfer.

⁸ Arolygiaeth Prawf EM (2016) 'Arolygiad thematig o'r ddarpariaeth ac ansawdd gwasanaethau yn y gymuned i ferched sy'n troseddu'.

3. Rheoli GGA – cynllunio a throsglwyddo

Cyflwyniad

Ym mhob un o'r lleoedd roeddem wedi ymweld â hwy boom yn edrych yn fanwl ar sampl o 12 achos yn erbyn offeryn arolygu a lle roedd hynny'n bosibl boom yn siarad â'r swyddog cyfrifol ac o bryd i'w gilydd gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Boom yn edrych ar ansawdd yr asesiadau cychwynnol a'r cynllunio wedi'r dedfrydu, a'r graddau roeddent yn cefnogi'r GGA. Yna boom yn ystyried y cynnydd a wnaed, a sut roedd hyn wedi cael ei adolygu gan y swyddog cyfrifol. Boom yn edrych hefyd i ba raddau roedd GGA yn ystyried unrhyw risg o niwed a gyflwynwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chefnogi amddiffyn y cyhoedd, ac yn olaf i ba raddau roedd pwrpas y GGA wrth adsefydlu'r defnyddiwr gwasanaeth ac atal troseddu pellach wedi ei gyflawni.

3.1. Asesiad

Mae asesiadau a gyflawnir ar ôl dedfryd yn bwysig wrth gadarnhau anghenion y defnyddiwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r drosedd ac yna wrth benderfynu cynllun gweithgarwch ac ymyriad i'w drosglwyddo trwy'r GGA. Roedd y rhain yn arbennig o angenrheidiol yn yr achosion hynny lle na chafwyd ond yr wybodaeth leiaf posibl am y troseddwr gan y llys.

Ar gyfer rhai achosion roedd copi wedi ei deipio o adroddiad y llys, ond mewn lleiafrif nodedig dim ond copi ysgrifenedig o adroddiad wedi ei gyflwyno ar lafar oedd ar gael, a rhannau ohono'n annarllenadwy. Mewn ychydig o achosion yn unig roedd copi o ddogfennaeth asesu wedi ei gwblhau i ategu'r adroddiad, neu amlinelliad o gynllun dedfrydu. Roedd asesiad ôl-ddedfrydu troseddau'r defnyddiwr gwasanaeth gan y swyddog cyfrifol, felly, yn allweddol wrth drawsnewid y GGA yn gynllun gwaith wedi ei seilio ar ddealltwriaeth lwyr o'r defnyddiwr gwasanaeth.

Roeddem wedi ystyried bod mwy nag un mewn tri achos CAC ac un mewn pedwar achos GPC heb gael asesiad cyflawn digonol ar ôl dedfrydu o fewn amser priodol yn dilyn ei neilltuo i swyddog cyfrifol.

3.2. Cynllunio

Roedd y rhan fwyaf o Adroddiadau'r Gwasanaeth Prawf wedi adnabod y ffactorau'n gywir oedd yn berthnasol i droseddu'r unigolyn. Yn ein barn, y ffactorau oedd wedi eu cysylltu'n fwyaf cyffredin throeddau posibl eto ac y medrid mynd i'r afael â hwy trwy'r GGA oedd meddwl ac ymddygiad, lles emosïynol (gan gynnwys iechyd meddwl a materion ymddygiadol), a chamddefnyddio alcohol, wedi eu dilyn gan berthnasau personol ac agweddau at droseddu.

Rydym yn disgwyl i gynllunio ar gyfer dedfrydu flaenoriaethu ffactorau sydd fwyaf perthnasol i'r tebygolrwydd o droseddu eto. Yn ein sampl, fodd bynnag, roeddem wedi canfod bod y rhai hyn yn llai tebygol o gael eu blaenoriaethu na ffactorau eraill. Yn lle hynny, rhoddwyd y flaenoriaeth yn fwy aml i ddelio â lletya, anghenion addysg, hyfforddiant a chyfflogaeth (AHCh), camddefnyddio cyffuriau, ac agweddau gwahaniaethol.

Rhoddwyd y flaenoriaeth i faterion lle roedd dull o weithredu neu weithgarwch ar gael mewn gwirionedd. Heb eithriad roedd y rhain yn berthnasol i adsefydlu cyffredinol neu les y defnyddiwr gwasanaeth, ond roeddent yn llai o achos uniongyrchol troseddau'r unigolyn na rhai ffactorau eraill, ac mewn ambell achos nid oedd unrhyw weithgarwch wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r ffactorau oedd fwyaf perthnasol yn uniongyrchol. Er enghraifft, yn Huddersfield roedd gweithgarwch oedd yn canolbwyntio ar broblemau lletya (megis cyfeirio at ddarparwr lletya) yn cael ei gynnwys yn y GGA ar gyfer pob achos a welsom gydag anawsterau lletya, p'un ai bod y rhain yn gysylltiedig yn uniongyrchol â throeddau'r unigolyn neu beidio.

Ar y cyfan, dim ond 58% o'r ffactorau cysylltiedig â throsteddu roeddem wedi eu nodi oedd yn mynd i'r afael yn ddigonol â chynllunio gweithgarwch GGA. Roedd perfformiadau'n amrywio'n amlwg, o Huddersfield a Chaerfyrddin (yn y CAC yn ogystal â'r GPC) lle'r aed i'r afael â bron pob un o'r ffactorau troseddogenig a nodwyd i'r CAC yn Northampton lle roedd llai nag un mewn pump. Roeddem wedi canfod bod y lleoedd oedd yn dda am flaenoriaethu unrhyw un ffactor perthnasol i droseddu'n dda'n gyffredinol am flaenoriaethu'r ffactorau i gyd.

Mewn llawer o achosion, roeddem wedi canfod bod y cynllun ar gyfer trosglwyddo'r GGA (fel y cafodd ei egluro i ni gan y swyddog cyfrifol) yn fwy clir o lawer ac yn fwy rhesymegol na'r cofnod ohono ar y system rheoli achos. Dylai cynlluniau dedfrydu nodi'n glir y cynnwys a'r amserlen ar gyfer darparu'r GGA, ond roedd y rhai a gwblhawyd yn y system asesu troseddwy'r (SAT) yr isaf posibl yn aml. Lle roedd y ffactorau cysylltiedig â throsteddu roedd y GGA i fynd i'r afael â hwy wedi eu nodi, yn anaml y byddent yn cynnwys manylion penodol o ba weithgarwch GGA oedd yn mynd i'r afael â pha ffactor, sut a gan bwy y byddai'r gwaith i gael ei wneud, a sawl un o'r diwrnodau gweithgarwch GGA fyddai'n cael eu defnyddio. Yn gyffredinol roeddent yn aneglur ac yn ddiwerth i unrhyw un a fyddai'n cael ei ailneilltuo i'r achos, neu fod angen trosolwg. Roedd y canfyddiad hwn yn adlewyrchu strwythur swyddogaeth cynllunio dedfrydu'n rhannol yn y SAT, nad oedd wedi ei gynllunio i ddarparu'r math o gynllun roedd ei angen i drosglwyddo GGA.

Roedd nDelius yn aml yn rhoi darlun cliriach mewn achosion, os yn y cofnod o ofynion roedd manylion y GGA yn nodi elfennau ei ymyriadau ychwanegol (a elwir yn ymyriadau anstatudol yn y system). Mewn rhai achosion nid oedd yr ymyriadau anstatudol yn cael eu cofnodi. Mae arweiniad a disgwyliadau GCRhT ar y manylion ynghylch sut mae GGA a'u helfennau i gael eu cofnodi wedi esblygu dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n ymddangos erbyn hyn fod yr wybodaeth hon yn fwy tebyg o gael ei chwblhau.

Yn Huddersfield a Chaerfyrddin gwelsom gynlluniau dedfrydu annibynnol llawer gwell yn eu hachosion CAC priodol oedd wedi eu cysylltu ag asesiad a dogfennau cynllunio wedi eu cwblhau ar y cyd rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r swyddog cyfrifol fel rhan o becyn dedfrydu cynefino cychwynnol. Roedd y cofnodion newydd hyn yn y broses o gael eu cyflwyno ac fe'u defnyddiwyd mewn nifer fechan yn unig o achosion yn ein sampl.

3.3. Cynnydd ac adolygiad

Roedd yr achosion roeddem wedi eu harolygu wedi eu dedfrydu naw mis cyn y gwaith maes. Roeddem wedi canfod, ar y cyfan, fod cynnydd digonol wedi ei wneud wrth drosglwyddo gweithgarwch GGA a gynlluniwyd mewn un allan o dri'n unig. Mewn cyfran fechan roedd yr holl weithgareddau a gynlluniwyd wedi eu cwblhau, tra yn y rhan fwyaf o achosion roedd gweithgareddau'n dal i gael eu trosglwyddo. Roeddem wedi canfod cynnydd digonol tuag at gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd mewn llai o achosion, llai nag un mewn tri, y gwahaniaeth wedi ei briodoli i'r nifer fechan o achosion lle nad oedd trosglwyddo'r gweithgarwch wedi arwain at unrhyw gynnydd gweladwy tuag at y canlyniadau a gynlluniwyd.


Unwaith yn rhagor, roeddem wedi canfod amrywiad sylweddol rhwng lleoedd. Yn Newcastle, nid oedd digon o gynnydd wedi ei wneud yn unrhyw un o'r 12 achos CAC a GPC a welsom, tra yn y CAC yn Huddersfield a Newham roedd hanner yr achosion a welsom wedi gwneud cynnydd digonol. Roedd pob un o'r achosion GPC a welsom yng Nghaerfyrddin a Chaerlŷr wedi gwneud cynnydd digonol.

Mewn perthynas â'r ffactorau roeddem wedi eu nodi fel rhai perthnasol i droseddu'r unigolyn, roedd cynnydd digonol wedi ei wneud wrth drosglwyddo gweithgarwch GGA mewn perthynas â'r rhain mewn un achos mewn pedwar yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiad bod y ffactorau hyn mewn llawer o achosion heb gael eu blaenoriaethu wrth gynllunio'r trosglwyddiad.

Ar y cyfan, yn erbyn y ffactorau cysylltiedig â throeddau roeddem wedi eu nodi, roedd y cynnydd mwyaf wedi ei wneud wrth drosglwyddo gweithgarwch i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, lle roedd cynnydd digonol wedi ei wneud mewn mwy nag un achos mewn tri.

Mae ansawdd y gwaith yn y sampl o achosion sydd yn berthnasol i asesiad a chynllunio gan y swyddog cyfrifol a'r graddau o gynnydd a wnaed wrth drosglwyddo GGA wedi ei grynhoi yn Ffigyrau 1 i 3.

Ffigyrau 1 i 3: Dangosfwrdd rheoli troseddwr



Mewn rhai achosion gwelsom ddilyniant medrus mewn gweithgarwch i ddelio â'r ffactorau perthnasol i droseddu.

Enghraifft o arfer da:

Roedd gan Terry hanes hir o droseddu, gyda llawer ohono (fel y drosedd gyfredol o ymosod) a achoswyd gan alcohol. Roedd y broblem hir dymor hon ynghlwm ag alcohol wedi ei chysylltu â phroblem hir dymor iselder cymedrol ac ynysu cymdeithasol. Dan oruchwyliaeth y CAC yng Nghaerfyrddin, blaenoriaeth gyntaf y diwrnodau GGA oedd cyswllt â gweithiwr allweddol yn y gwasnaeth cyffuriau ac alcohol lleol i ostwng a chynnal ei yfed i lefel isel, a sesiynau gwirfoddol ychwanegol gyda chwmselydd.

Roedd y gwaith cwnsela hwn yn cael ei gefnogi gan gyfarfodydd rheolaidd gyda'r swyddog cyfrifol fel rhan o'r GGA, a chyswllt gwirfoddol gan asiantaeth cymorth tai leol i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol. Nesaf ar y cynllun oedd rhaglen waith rannol-strwythuredig gyda'r swyddog cyfrifol ar ymwybyddiaeth dioddefwr a chwrs 12 sesiwn 'symud ymlaen' wedi ei drosglwyddo gan elusen iechyd meddwl, y ddau'n rhan o'r GGA.

Roedd gan ugain achos yn ein sampl ofyniad gwaith di-dâl (Ad-dalu Cymunedol) yn eu gorchymyn. Mae'n arfer da ac yn cydymffurfio â safonau GCRhT i ddechrau gwaith di-dâl yn fuan. Mewn achosion lle mae gan y defnyddiwr gwasanaeth ymrwymadau gwaith sylweddol, gall fod yn briodol caniatáu ar gyfer hynny, a throsglwyddo gofyniad cyswllt GGA cyfochrog yn llai aml nag arfer. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, gall fod yn bwysig rhoi blaenoriaeth gyfwerth neu fwy i drosglwyddo gweithgarwch GGA, yn enwedig o ystyried y gall y rhain fod yn fwy tebygol o leihau'r tebygolrwydd o drosedd bellach. Mewn rhai achosion nid oedd hyn wedi ei wneud a chafwyd oedi i gychwyn y GGA.

Enghraifft o arfer gwael:

Roedd Darren wedi ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol am 1 flwyddyn, o dan oruchwyliaeth y CAC yn Huddersfield. Roedd wedi ei orchymyn i gwblhau 80 awr o waith di-dâl a hyd at 10 o ddiwrnodau GGA. Roeddem yn bryderus i ganfod, er iddo wneud ei waith di-dâl wythnosol o'r cychwyn a chwblhau'r gofyniad hwn, ni fu unrhyw gyswilt mewn perthynas â'r GGA yn y pedwar mis cyntaf. Roedd cynllun i Darren fynychu rhaglen chwe sesiwn ar reoli dicter gyda darparwr allanol, ac i wneud tair sesiwn o waith ymwybyddiaeth dioddefwr gyda'r swyddog cyfrifol. Tra bod trefniadau wedi eu gwneud i'r rhain ddigwydd, nid oedd yr un wedi dechrau o fewn naw mis cyntaf y gorchymyn, er bod y gwaith hwn yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag atal trais pellach yn erbyn dioddefwr y drosedd neu'n wir unrhywun arall.

Gallai rheoli gwaith di-dâl yn hollol ar wahân i orchymyn aml-ofyniad arwain at y gofyniad hwnnw'n cael ei weithredu'n gyflym, heb ystyried gwaith arall sydd yn cael ei wneud. Mewn rhai CAC, gan gynnwys yr un yn yr enghraifft flaenorol, roedd trefniadau cyfundrefnol yn newid fel bod gwaith di-dâl a gofynion eraill mewn gorchymynion aml-ofyniad yn nwylo'r swyddog cyfrifol, gan eu galluogi i flaenoriaethu trosglwyddo'r holl ofynion yn synhwyrol ac yn strategol.

Mae pob gweithgarwch GGA yn gorffen ar ddyddiad terfynu'r gorchymyn. Oherwydd hyn mae adolygiad cyfnodol o achosion gyda GGA yn bwysig, nid yn unig i asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun, ond er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r ymyriadau a'r gweithgarwch arall a gynlluniwyd mewn pryd.

Roeddem wedi canfod nad oedd y swyddog cyfrifol wedi adolygu cynnydd yn ddigonol mewn mwy na hanner yr achosion y buom yn edrych arnynt, achosion CAC yn ogystal â GPC. Mewn dau achos yn unig roedd hyn o ganlyniad i fethiant y defnyddwyr gwasanaeth ymgysylltu â'r sefydliad. O gofio bod naw mis wedi mynd heibio ers dechrau'r gorchymynion roeddem wedi eu harolygu, roedd angen rhyw raddau o adolygiad neu wirio cynnydd ar y rhan fwyaf ohonynt.

Lle roedd angen adolygu'r cynllun dedfrydu er mwyn sicrhau gorffen y gweithgarwch a gynlluniwyd mewn pryd, cafodd hyn ei wneud i raddau boddhaol mewn traean o'r achosion yn unig.

3.4. Amddiffyn y cyhoedd

Ym mhob achos mae'n bwysig bod y gwaith yn cael ei gynllunio, ei reoli a'i gyflawni mewn ffyrdd sydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw risg o niwed y gall y troseddwr ei chyflwyno.

Mewn mwy na dwy draean o'r achosion yn y sampl roeddem wedi eu harolygu, roedd y drosedd yn golygu ymddygiad niweidiol. Yn hanner yr achosion hyn nid oedd digon o ganolbwyntio ar y risg o niwed i eraill a gyflwynwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth wrth weithredu'r GGA. Roedd hyn yn cynnwys y swyddog cyfrifol, yn ogystal â phartion eraill lle roedd ganddynt ran, ac roedd yn berthnasol yn yr un modd i achosion a reolwyd gan y CAC a'r GPC.

3.5. Canlyniadau

Doedden ni ddim yn gweld bod digon o effaith wedi eu gwneud ar leihau'r posibilrwydd o aildroseddu ym mwyafrif yr achosion a arolygwyd.


Yn ein sampl achos, roeddem wedi asesu bod cynnydd digonol wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r ffactorau cysylltiedig â throsteddu mewn llai na thraean o'r achosion, yn gyson â'n canfyddiadau ar ansawdd yr asesiad a'r trosglwyddo. Mewn nifer fechan roedd y canlyniad a gynlluniwyd wedi ei gyflawni'n llawn.

Ar y cyfan roeddem wedi canfod bod mwy o gynnydd wedi ei wneud mewn perthynas ag AHCh, camddefnyddio alcohol, lles emosiynol, meddwl ac ymddygiad, ac agweddu gwahaniaethu. Roedd llai o gynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â phroblemau ariannol, ffordd o fyw, camddefnyddio

cyffuriau, ac agweddau tuag at droseddu. Nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu ansawdd gwahanol yr ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau amrywiol, oherwydd bod rhai ffactorau megis camddefnyddio cyffuriau yn eu hanfod yn fwy anodd i'w goresgyn.

Roedd chwarter yr holl unigolion mewn achosion roeddem wedi eu harolygu wedi derbyn euogfarn, rhybudd, neu gosb heb fod rhaid mynd i'r llys am drosedd a gyflawnwyd ers dechrau eu dedfryd.

Mae'r perfformiad yn gyffredinol mewn perthynas â chyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer y GGA yn y sampl o achosion wedi ei grynhof yn Ffigwr 4.



3.6. Casgliadau a goblygiadau

Roedd angen cryn welliant yn ansawdd yr asesiadau cychwynnol a chynllunio dedfryd i gefnogi trosglwyddiad effeithiol y GGA. Nid oedd y gweithgarwch hwn wedi ei gefnogi'n dda gan yr wybodaeth oedd yn dod gyda'r achos gan dimoedd cyswllt llys y GPC, nad oedd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynnwys yr offer asesu a ddefnyddiwyd i baratoi AGP, neu amlinelliad dros dro o'r cynllun dedfrydu. Er gwaethaf hyn byddem wedi disgwyl i swyddogion cyfrifol wneud mwy o gynnydd ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throeddu.

Yn aml roedd cynllun a chynnwys cynlluniau dedfrydu'n annigonol fel cofnod o gytuno sut byddai'r GGA yn cael eu trosglwyddo. Y cynlluniau gorau oedd y rhai hynny a gwblhawyd gan ddefnyddio dogfennau annibynnol. Lle mae'r CAC yn cynllunio i gyflwyno systemau rheoli achos newydd mae posibilrwydd y gwelir pethau'n sylweddol.

Trwy gydol yr arolygiad hwn roeddem wedi clywed sylwadau gan reolwyr lleol yn aml yn datgan eu rhwytredigaeth ynghylch diffyg arweiniad clir a chyson am y modd y dylai'r GGA gael eu rheoli a'u trosglwyddo.

4. Darparu GGA - strategaeth a chynnwys

Cyflwyniad

Ym mhob un o'r lleoedd roeddem wedi eu harolygu, roeddem wedi ymweld â phrosiectau a gwasanaethau lleol a ddefnyddid i weithredu GGA, ac wedi arsylwi trosglwyddo'r gweithgareddau GGA gan CAC, y GPC, a sefydliadau allanol. Roeddem wedi edrych ar y math, amrediad ac ansawdd y gweithgarwch a'r gwasanaethau oedd ar gael i'w defnyddio mewn GGA, gan gynnwys gwaith a drosglwyddwyd yn unigol gan staff CAC a GPC, yn ogystal â'u defnydd o sefydliadau allanol. Roedd gennym ddi-ddordeb mewn gweld pa mor dda roedd gwaith a gweithgarwch a drosglwyddwyd yn fewnol yn cael ei gefnogi, pa mor dda roedd gwaith a drosglwyddwyd yn allanol yn cael ei reoli, ac a oedd trefniadau ar gyfer rheoli ansawdd a gwerthuso.

4.1. Cardiau cyfradd a chyfeiriaduron gwasanaethau

Dylai fod gan bob CAC gerdyn cyfradd yn ei le adeg yr arolygiad, er efallai nad oedd y rhain ar gael ar yr adeg y cafodd yr achosion yn ein sampl eu dedfrydu.

Cyn belled â bod y cerdyn cyfradd yn darparu rhestr a disgrifiadau cryno o ymyriadau y medrid eu defnyddio fel rhan o GGA, roedd yn bwysig rhoi gwybod i staff y CAC eu hunain, a'r GPC, o'r hyn oedd ar gael. Roedd rhai'n ddogfennau o ansawdd uchel, wedi eu cyflwyno'n dda. Yn anffodus, nid oedd pob un ohonynt yn gyfredol, ac roedd rhai'n rhestru eitemau nad oedd ar gael ar y pryd. Yn CAC Llundain roedd y cerdyn cyfradd yn dal i fod ar ffurf drafft. Fel dewis arall, roedd gan rai o'r CAC gyfeiriaduron cynwhysfawr o'r gwasanaethau oedd ar gael, ac roedd gan staff sefydlog eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain o'r gwasanaethau a'r ymyriadau y medrent eu defnyddio.

Roedd yn ymddangos bod swyddogaeth y cerdyn cyfradd fel rhestr brisiau i'r GPC wrth brynu gwasanaethau CAC yn amherthnasol at ddibenion y GGA, gan fod ymdrechion i leihau costau yn y manau y buom yn ymweld â hwy yn golygu bod y GPC yn defnyddio gweithgareddau ar gyfer GGA oedd wedi eu trosglwyddo gan eu staff eu hunain, neu'n cyfeirio at wasanaethau y medrent gael mynediad atynt yn uniongyrchol ac am ddim.

Yn y GPC roedd rhai rheolwyr wedi nodi bod amrediad y gwasanaethau a ddarparwyd gan y CAC wedi eu teilwra'n anochel i anghenion eu llwyth achosion eu hunain, ac yn llai perthnasol i nodweddion gwahanol achosion y GPC. Nid oedd prosiectau ac ymyriadau'n cael eu datblygu'n benodol ar gyfer y grŵp hwnnw, sydd yn nodweddiadol yn cynrychioli dim mwy nag un rhan o bump o lwyth achosion y GPC, ac roedd GGA yn cael eu trosglwyddo gan ddefnyddio gweithgarwch ac ymyriadau oedd mewn lle eisoes ar gyfer achosion dan oruchwyliaeth wrth eu rhyddhau o'r ddalfa, neu ar ddedfrydau cymunedol heb GGA. Roedd pwyslais cryf ar ddefnyddio rhaglenni rhannol-strwythuredig wedi eu trosglwyddo'n unigol gan y swyddog cyfrifol, neu aelod arall o staff ar eu rhan.

Roedd CAC Llundain yn gweithio tuag at fodel lle roedd modd defnyddio gwasanaethau neu sefydliadau ar restr mewn cyfeiriaduron gwasanaethau'n unig fel rhan o oruchwyliaeth statudol, gan gynnwys GGA. Roedd hyn er mwyn creu eglurder a sefydlogrwydd mewn rheolaeth ryng-asiantaethau, i sicrhau bod darparwyr yn addas ac yn briodol, a sicrhau cysondeb cyfnewid gwybodaeth ynghylch presenoldeb, i gefnogi gorfodaeth. Yn Newham fodd bynnag, roedd ymarferwyr yn aneglur ynghylch statws y darparwyr oedd yn gweithio gyda hwy. Ni wyddent a ganiateir eu defnyddio o hyd, neu a oedd yn rhaid i ddarparwyr fynd trwy'r broses gymeradwyaeth i gael bod yn y cyfeiriaduron, a beth a pha mor gyflym oedd y broses honno. Roeddent yn aneglur hefyd ynghylch statws asiantaethau statudol eraill.

4.2. Darpariaeth fewnol gan y CAC a GPC

Roedd llawer o'r gwaith GGA a welsom yn y CAC a'r GPC yn edrych fel parhad o'r drefn flaenorol o oruchwyliaeth unigol gan swyddogion cyfrifol. Yn yr un modd, ar gyfer dulliau eraill o ymyriad, roedd llawer o'r gweithgarwch a'r gwasanaethau oedd ar gael o'r un math neu'n debyg i'r rhai hynny oedd mewn bodolaeth cyn *Trawsnewid Adsefydlu*. Y gwahaniaeth mwyaf amlwg, o'n profiadau blaenorol a sylwadau nifer o staff y buom yn cwrdd â hwy, oedd bod yr ystod o wasanaethau wedi lleihau.

Gwaith unigol

Yn ein sampl roeddem wedi canfod bod mwy na hanner y diwrnodau gweithgarwch wedi eu trosglwyddo'n unigol gan y swyddog cyfrifol, yn y CAC a'r GPC. Roedd un ymhob tri diwrnod GGA wedi eu trosglwyddo gan sefydliadau allanol. Daethom ar draws pedwar achos yn unig lle roedd GGA wedi ei drosglwyddo trwy grŵp a gynhaliwyd yn fewnol, tri gan y CAC yn Huddersfield, ac un gan y GPC yn Huddersfield.

Enghraifft o arfer da:

Roeddem wedi canfod defnydd da o fodel rheoli troseddwr yn y GPC yn Sir Gâr, er enghraifft, gyda'r swyddog cyfrifol (fel rheolwr y troseddwr) yn trosglwyddo gwaith i fynd i'r afael â throsteddu rhywiol, gydag aelod arall o staff mewn rôl gefnogol yn trosglwyddo gweithgareddau GGA ar gamdefnyddio alcohol neu anawsterau lletya.

Lle roedd gweithgarwch GGA yn cael ei drosglwyddo gan y swyddog cyfrifol, roedd hyn yn aml ar ffurf cyswllt rhannol-strwythuredig, ac roedd hyn yn cyfrif am bron hanner yr holl weithgarwch. Mewn nifer fechan o achosion (12) roedd yr ymyriad yn cynnwys rhaglen strwythuredig (heb ei hachredu) wedi ei throsglwyddo ar sail unigol.

Mewn rhai achosion roedd y gorchymyn yn cynnwys gofynion eraill ochr yn ochr â'r GGA. Yn genedlaethol, mae'r rhan fwyaf o orchmynion gyda GGA yn cynnwys gofynion eraill yn ogystal (62% o'r holl orchmynion cymunedol a'r dedfrydau gohiriedig a wnaed Hydref-Rhagfyr 2015)⁹. Mewn llawer o'r achosion hyn roedd y GGA yn cael ei ddefnyddio i drosglwyddo gwaith unigol gan y swyddog cyfrifol i gefnogi a chymhell cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn y gofyniad / gofynion) eraill, yn ogystal â throsglwyddo unrhyw ymyriad penodol gan ddefnyddio diwrnodau gweithgarwch GGA.

Yn Sir Gâr, roeddem wedi canfod bod y rhan fwyaf o GGA yn cael eu trosglwyddo'n unigol yn y CAC a'r GPC - mewn ymateb i natur wledig iawn yr ardal. Roedd rheolwyr ac ymarferwyr CAC wedi bod yn flaengar, ac wedi cynhyrchu cyfres o 12 llawlyfr oedd yn ymdrin â materion gwahanol cysylltiedig â throsteddu, ar gael ar fewnwyd y CAC. Roeddent wedi eu hysgrifennu i'w trosglwyddo ar ffurf grŵp, ond roedd modd hefyd eu defnyddio'n unigol. Roedd staff yn gweithio'n hyblyg, ac yn defnyddio'r deunydd yn greadigol a heb ymdrech. Roedd y dull hwn yn cwrdd â'r ddau amcan o hyrwyddo arfer effeithiol a rheoli deunyddiau'n effeithlon.

I'r gwrthwyneb, roeddem yn bryderus bod ymarferwyr mewn lleoedd eraill yn ymddangos fel eu bod wedi eu gadael i ymdopi ar eu pennau eu hunain i chwilio am a defnyddio deunyddiau addas ar gyfer gwaith unigol. Yn fwyaf cyffredin, roeddent eu hunain wedi chwilio am amrywiaeth o ddeunyddiau o ystod o ffynonellau a oedd wedi eu cynllunio'n aml at ddibenion gwahanol. Defnyddiwyd y llawlyfr Targets for Effective Change yn aml, a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Prawf Swydd Nottingham mor bell yn ôl ag 1999. Nid yw wedi ei ddiweddarau i ystyried damcaniaeth ac arfer cyfredol yn y gwasanaeth prawf, er bod defnyddio deunydd o'r math hwn yn well na gweithio

⁹Ystadegau Llwyth Achos Rheoli Troseddwr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016 (Cymru a Lloegr).

heb unrhyw ddeunydd o gwbl. Roedd yn rhaid addasu'r cynnwys ar gyfer nodweddion penodol ac amgylchiadau defnyddwyr gwasanaeth unigol, heb fawr ddim arweiniad na chefnogaeth.

Gwaith grŵp

Ledled y chwe lleoliad roeddem wedi ymweld â hwy, gwelwyd ychydig iawn o waith grŵp wedi ei gynnal gan y CAC a'r GPC i drosglwyddo GGA. Yn Newcastle, fodd bynnag, roedd staff CAC yn defnyddio Positive Pathways, rhaglen o waith rhannol-strwythuredig a ddatblygwyd gan CRA Northumbria.

Enghraifft o arfer da:

Roedd y rhaglen Positive Pathways a ddefnyddiwyd gan y CAC yn Newcastle yn llawlyfr oedd wedi ei gynhyrchu'n dda ac yn ffurfio rhan ganolog a chyfannol o'r model trosglwyddo gwasanaeth. Roedd gofyn i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth gwblhau rhaglen chwe sesiwn, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, ar sail damcaniaeth ymataliad a phwysigrwydd y berthynas rhwng yr ymarferwr a'r defnyddiwr gwasanaeth. Ar ôl cwblhau'r rhaglen, roedd goruchwyliaeth wedi ei theilwra'n fwy agos at yr unigolyn, ac roedd trosglwyddo'n symud i fodel 'canolfan adnoddau' lle byddai swyddogion cyfrifol a staff arall y CAC, gweithwyr o asiantaethau allanol, a gwirfoddolwyr i gyd yn gweithio o leoliadau a rennid.

Roedd y CAC yn Huddersfield yn cynnal dwy raglen grŵp fewnol, Action for Change (saith sesiwn ar themâu ymataliad cyffredinol) ac Ymwybyddiaeth Dioddefwr (tair sesiwn). Roedd y rhain wedi eu llunio gan ymarferwyr yn lleol, yn bennaf fel dull o grynhoi adnoddau a gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth mewn grŵp i ddefnyddio eu hamser yn well. Nid oedd yn ffurfio rhan o fodel ehangach na strategaeth ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau, ac roedd y diffyg cyfeiriad strategol hwn wedi ei adlewyrchu yn ansawdd y cynnwys. Nid oedd sail resymegol eglur i'r rhaglenni i gynhyrchu'r canlyniadau arfaethedig, a dim trefniadau ar gyfer gwerthuso.

Darpariaeth fewnol arall

Roedd darpariaeth fewnol arall yn cynnwys patrymau cyswllt mwy hyblyg, megis y 'Siop Un Stop' yn Huddersfield, dull anffurfiol o waith grŵp wedi ei gynnal gan wirfoddolwyr prawf yn swyddfa'r CAC. Roedd yn ymgorffori grŵp adborth defnyddwyr gwasanaeth, a sesiynau hyblyg a oedd yn defnyddio cyfrifiaduron a ddarparwyd ar y safle er mwyn gweithio ar geisiadau am swyddi, CVs, ceisiadau am fudd-daliadau ac yn y blaen.

Roedd gweithgarwch GGA hefyd yn cynnwys cyswllt megis canolfan adnoddau AHCh a 'chlwb swyddi' yn Northampton a oedd yn cynnig cyngor a chefnogaeth gan ddefnyddio gweithwyr arbenigol a gyflogwyd gan y CAC.

Yng Nghaerfyrddin, roedd gwaith CAC gyda merched ar gynyddu hunan-barch a hyder wedi ei wneud ar sail unigol, ond roedd yn defnyddio'r diwrnod 'merched yn unig' yn wythnosol yn y swyddfa.

Mewn sawl lle roedd y CAC yn y broses o symud tuag at ddull o drosglwyddo ar sail fwy cymunedol trwy leoli ei swyddfeydd mewn adeiladau a rennid gyda sefydliadau cymunedol eraill.

4.3. Darpariaeth allanol

Yn ein sampl arolygu, o'r gweithgarwch a drosglwyddwyd trwy sefydliadau allanol, roedd mwy na dwy draean yn cynnwys cysylltiadau lluosog. Roedd llai na thraean yn cynnwys un apwyntiad unigol yn unig. Yn nodweddiadol roedd hyn ar gyfer asesiad cychwynnol i benderfynu a yw rhaglen o ymyrraeth barhaus yn briodol.

Gellid cyfrif presenoldeb mewn rhai gweithgareddau allanol yn briodol fel diwrnodau gweithgarwch GGA oherwydd eu cynnwys, ond ni fyddai modd eu gorfodi. Roedd hyn oherwydd bod angen presenoldeb ar sail wirfoddol ar ddarparwr y gwasanaeth, er enghraifft, grŵp gwirfoddol i adfer cyfoedion a fu'n camddefnyddio sylweddau yn Newcastle. Nid oedd hyn yn creu problem cyhyd â bod y defnyddiwr gwasanaeth yn bresennol fel rhan o'r cynllun dedfrydu ar gyfer trosglwyddo GGA, neu os oedd yn gwrthod, bod gweithgarwch gwahanol a gorfodadwy ar gael fel opsiwn arall.

Roedd yr Ymddiriedolaethau Prawf blaenorol yn tueddu i weithio gydag ystod eang o sefydliadau partner i drosglwyddo gwasanaethau fel rhan o'u dedfrydau cymunedol. Yn yr arolygiad hwn roeddem wedi canfod bod llawer o'r perthnasau hyn wedi dod i ben wrth i gontractau neu gytundebau gael eu terfynu, a dim wedi dod yn eu lle. Mewn rhai CAC roedd yn eglur bod hyn yn deillio o ddiffyg adnoddau trefniadol neu flaenoriaeth i osod trefniadau amgen yn eu lle. Yn Huddersfield a Sir Gâr, roedd darpariaeth AHCh wedi dod i ben yn y ffordd hon: roedd y CAC yn y broses o gyflwyno contractau mwy ledled CAC ar gyfer gwasanaethau AHCh, ond nid oeddent ar gael yn y lleoliadau hynny adeg yr arolygiad hwn.

Roedd darpariaeth trwy gytundebau neu gontractau gyda darparwyr allanol yn amrywio o le i le, er bod dapariaeth allanol ym mhob lle i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Gan amlaf, roedd darpariaeth gwasanaethau allanol yn cael eu trosglwyddo ar safleoedd y darparwyr eu hunain, ond nid oedd hyn yn digwydd bob tro: yn Newham roedd gweithiwr allgymorth AHCh a gyllidwyd gan Faer Newham yn gweithio yn swyddfa'r CAC.

Yng Nghaerlŷr ychydig o waith unigol oedd yn cael ei wneud mewn GGA a reolwyd gan y CAC. Roedd dull gweithredu'r rhiant-gwmni wedi rhagweld y byddai llawer o'r gwaith yn cael ei drosglwyddo trwy wasanaethau a ddarparwyd gan bartneriaid yn y cwmni, er enghraifft gwaith AHCh gan Ingeus, a rhaglen ymataliad 'Foundations of Rehabilitation' ar gamddefnyddio sylweddau gan CGL (Change Grow Live).

Roedd trefniadau yn eu lle ym mhob lleoliad roeddem wedi eu harolygu ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau trwy GGA ar gyfer yr achosion hynny nad oeddent yn ddigon difrifol i alw am ofynion triniaeth am alcohol neu gyffuriau.

Gwelsom lawer o sefydliadau allanol oedd yn canolbwyntio ar fater penodol megis digartrefedd neu gamddefnyddio sylweddau, ond a oedd hefyd yn trosglwyddo amrediad o wasanaethau gwahanol i fynd i'r afael â ffactorau troseddogenig posibl eraill. Yn Huddersfield, roedd Foundation Housing, darparwr llety, hefyd yn darparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer problemau cyllid, cyffuriau ac alcohol. Yng Nghaerfyrddin, roedd Gwalia, darparwr cyngor ar dai ac eiriolaeth yng ngorllewin Cymru, yn cynnig amrediad o wasanaethau cefnogol cysylltiedig hefyd.

Roeddem hefyd wedi canfod gwasanaeth lleol ar gamddefnyddio sylweddau'n cynnal grwpiau ar gyllidebu, rheoli dyledion, tai, addysg; grwpiau ysgogiadol ar gyfer y rhai hynny oedd yn ystyried y camau cyntaf tuag at newid, ac amrediad eang o weithgareddau hamdden adeiladol. Roedd pwyslais cryf ar wneud yr ymyriadau hyn yn gynaliadwy y tu hwnt i'r GGA. Roedd potensial wrth atgyfeirio at sefydliadau o'r mathau hyn i ddarparu 'siop un stop' i'r swyddog cyfrifol ar gyfer darpariaeth GGA, er nad oedd trefniadau yn eu lle i'r CAC sirchau ansawdd y gwaith hwn.

Prosiectau eraill yn y gymuned

Roeddem hefyd wedi canfod enghreifftiau o brosiectau iechyd meddwl cymunedol yn cael eu trosglwyddo trwy ddefnyddio diwrnodau gweithgarwch GGA.

Enghreifftiau o arfer da:

Yn Huddersfield roedd yr ymddiriedolaeth iechyd meddwl gymunedol wedi secondio nyrs seiciatrïg gymunedol i weithio i'r CAC er mwyn darparu rhaglen asesiad ac ymyriad byr o hyd at 20 niwrnod gweithgarwch GGA, gan gyfeirio ymlaen at wasanaethau cysylltiedig eraill lle roedd angen; a phrosiect i gefnogi teuluoedd gan ddarparu gweithgarwch oedd yn cynnwys helpu i greu perthnasau, cynnal cysylltiadau teuluol, cyfryngu, mentora unigol, cefnogaeth emosiynol, trefniadau cyswllt teuluol dan ouchwyliaeth, a rheoli dicter.

Yn Newham, gall troseddwy'r â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy clinigol ar gyfer gofyniad triniaeth iechyd meddwl, gael eu cyfeirio gan CAC Llundain at St Andrew's Healthcare (elusen iechyd meddwl) gan ddefnyddio diwrnodau GGA. Mae'r gwasanaeth hwn, wedi ei gomisiynu gan y CAC, yn cynnwys rhaglen 15 sesiwn sy'n delio ag iselder, perthnasau, a rheoli emosiynau. Mae ymyriadau wedi eu teilwra i'r unigolyn o fewn y rhaglen strwythuredig.

Gwasanaethau i ferched

Roedd enghreifftiau o ddarpariaeth benodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau benywaidd y gwelwom yn cael eu defnyddio o fewn GGA yn cynnwys:

- The New Dawn, New Day, Canolfan i Ferched yng Nghaerlŷr, a oedd wedi ei chomisiynu i drosglwyddo gwasanaethau ledled dwy Bartneriaeth Lleihau Troseddu Eto'r CAC, ac yn darparu cyfres o bedair rhaglen mewn amgylchedd i ferched yn unig.
- Canolfan i Ferched y Good Loaf yn Northampton, prosiect menter gymdeithasol a oedd yn darparu amrediad eang o wasanaethau gan gynnwys mentora, cyfeillio a sawl grŵp cefnogi. Yn ogystal â hyn roedd y prosiect yn darparu profiad gwaith ac roedd ganddo gysylltiadau â gwasanaethau a phrosiectau lleol amrywiol eraill
- prosiect tebyg, Canolfan i Ferched, Evolve, yn Huddersfield.

Mentora

Roedd mentora ar gael i'w ddefnyddio fel rhan o GGA mewn sawl lle roeddem wedi ymweld â hwy. Mewn rhai achosion roedd yn creu adnodd allanol ar wahân, megis mentoriaid a ddarparwyd gan SOVA i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau yn Northampton gyda cheisiadau am hyfforddiant, tra mewn eraill un o nifer adnoddau oedd ar gael gan ddarparwr dan contract oedd mentora.

Yn Huddersfield roedd y CAC yn darparu mentora mewnol, ac yn defnyddio ei wirfoddolwyr ei hun fel mentoriaid.

Enghraifft o arfer da:

Roedd y CAC yn Huddersfield wedi cyflwyno'r defnydd o fentoriaid fel dull o hyrwyddo cydymffuriad ac osgoi'r angen i orfodi. Roedd gan yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth oedd â thuedd uchel i droseddu eto fentor yn rhan o'u cynefino. Roedd ffocws penodol ar nodi rhwystrau rhag ymgysylltu, a byddai'r mentor yn codi'r materion a nodwyd a'u dilyn mewn gwaith ar y cyd â'r defnyddiwr gwasanaeth. Gellid ystyried hyn fel gwaith adsefydlol o fewn apwyntiadau GGA.

Cyfiawnder adferol

Un o ddau faes gwaith y gellid ei wneud trwy GGA yn unig a roddir fel enghraifft benodol yng ngeiriad y DAT yw cyfiawnder adferol (y llall yw trosglwyddo 'gweithgarwch sydd yn ffurfio rhaglen achrededig'). Yn eironig, ni ddaethom o hyd i unrhyw enghraifft mewn unrhyw un o'r achosion a arolygwyd gennym, er bod prosiectau wedi eu rhestru mewn rhai o'r cyfeiriaduron gwasanaeth.

Rydym yn ymwybodol bod ymyriadau cyfiawnder adferol yn llafurddwys ac felly'n ddrud, a medrant fod yn anodd eu trefnu.

Roedd gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth y troseddwyr o effaith eu hymddygiad ar ddiodefwr, fodd bynnag, ar y ddewislen ym mhob sefydliad â ymwelwyd gennym. Gan amlaf roeddent ar ffurf rhwng un a thair sesiwn waith wedi eu trosglwyddo gan y swyddog cyfrifol.

4.4. Rheoli ansawdd a gwerthuso

Tra bod llawer o weithgarwch GGA yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr allanol (gan amlaf o dan gontractau wedi eu rheoli yn ganolog gan y CAC neu GPC) nid oeddem wedi canfod unrhyw enghreifftiau o drefniadau lleol neu ganolog ar gyfer gwirio ansawdd y gwaith. Roedd trefniadau adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu lle gan amlaf, ond ni fyddai'r rhain o reidrwydd wedi dangos diffygion pwysig megis methu herio agweddau oedd yn tueddu i droseddu neu sesiynau rhaglen oedd yn gwyro oddi ar y cynnwys a osodwyd.

Roedd yn braf gweld bod canlyniadau tymor byr Canolfan Menywod New Dawn, New Day, yng Nghaerlŷr (y cyfeiriwyd ati ynghynt) yn cael eu gwerthuso gan CAC Swyddi Derby, Caerlŷr, Nottingham a Rutland.

4.5. Casgliadau a goblygiadau

Ar y cyfan, roedd patrwm trosglwyddo gwasanaethau ar gyfer GGA yn ymddangos yn debyg i'r un cynharach ar gyfer y gofynion goruchwyliaeth a gweithgarwch ar wahân, i'r graddau bod mwy na hanner y diwrnodau GGA yn ein sampl wedi eu trosglwyddo trwy waith unigol gyda'r swyddog cyfrifol. Nid oedd o reidrwydd yn anaddas, ac roedd peth o'r gwaith hwn wedi ei strwythuro, wedi ei drefnu'n dda ac yn bwrpasol. Nid oeddem wedi canfod unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn ynddo'i hun yn arwydd o waith o ansawdd is neu'n broblemataidd o ran cyflwyno effaith bositif. Yn Sir Gâr a Newcastle dyma oedd y model disgwylledig ar gyfer trosglwyddo CAC, a dyma'r unig leoedd lle medrem weld ei fod wedi ei drefnu'n dda. Mae'n bosibl y ceir goblygiadau cost, fodd bynnag, os medr sefydliadau allanol ddarparu gweithgarwch yn rhatach.

Mewn manau eraill, roeddem yn bryderus mai ychydig o adnoddau oedd wedi eu neilltuo ar gyfer creu pecynnau gwaith i'w trosglwyddo'n fewnol gan staff CAC, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Roedd hyn yn golygu bod ansawdd y gwaith yn ddibynnol ar sgilau a phrofiad yr ymarferwr unigol, heb lyfrgell o adnoddau gwaith unigol ar gael i'w defnyddio'n hawdd. Roeddem wedi cyfarfod â staff oedd yn awyddus i weithio ar eu hachosion mewn grwpiau er mwyn defnyddio eu hamser yn fwy effeithiol, ond nid oedd y buddsoddiad cychwynnol i alluogi datblygu dulliau i roi hyn yn ei le wedi digwydd.

Mewn perthynas â rhai ymyriadau, roedd yn bosibl bod tgwaith gan sefydliadau allanol wedi annog y defnyddiwr gwasanaeth i greu perthnasau â sefydliadau cymunedol a fedrai ddarparu cymorth yn y dyfodol y tu hwnt i'r ddedfryd. Mewn rhai manau roedd yn ymddangos bod gor-ddibyniaeth ar waith wedi ei ddarparu gan swyddogion cyfrifol ar sail unigol fel ymateb i ddiffyg cynnydd wrth gael mynediad i wasanaethau allanol â'r potensial i fod yn fwy effeithiol.

5. Rheoli GGA – ymgysylltiad, gorfodaeth a chofnodi

Cyflwyniad

Yn yr adran hon rydym wedi ystyried y ffactorau sydd yn cyfrannu at reolaeth gorchmynion gyda GGA, gan gynnwys ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth, trosglwyddo gweithgareddau GGA, a rheoli presenoldeb a gorfodi gorchmynion. Yn ogystal â hyn rydym yn adrodd ar broblemau ymarferwyr wrth benderfynu'r hyn sy'n ffurfio gweithgareddau ac apwyntiadau GGA, a sut i'w cofnodi.

5.1. Amrywiaeth, ymgysylltiad ac ysgogiad

Mae ystyried ffactorau amrywiaeth a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth greu a chynllunio eu gorchmynion yn bwysig er mwyn creu ymgysylltiad yn eu gorchymyn a'u hysgogi mewn proses o adsefydlu.

Yn yr achosion roeddem wedi eu harolygu, roedd y swyddog cyfrifol wedi cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth mewn modd ystyrlon wrth gynllunio trefniadau ar gyfer y GGA mewn llai na hanner yr achosion lle roedd hyn yn bosibl (mewn nifer fechan o achosion nid oedd hyn yn bosibl am fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi gwrthod cydweithredu). Mewn perthynas â'r adolygiad parhaus o gynnydd roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi ei gynnwys mewn modd ystyrlon mewn un achos allan o dri'n unig.

Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau a nodwyd yn Adran 3 bod angen gwella'r asesu, cynllunio, trosglwyddo ac adolygu ar y GGA yn gyffredinol.

Tarfwyd ar ymgysylltiad effeithiol mewn rhai achosion gan i swyddog cyfrifol newydd gael ei benodi.

Enghraifft o arfer gwael:

Yn Newham gwelsom achos James a gyfwelwyd yn drylwyr gan swyddog cyswllt y llys, a dilynwyd hyn gan dri swyddog cyfrifol gwahanol ar ôl ei neilltuo i'r CAC er mwyn gorchymynio'r gorchymyn. Tra bod y GGA yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi cydymffurfio ag anghenion gofyniad adsefydlu cyffuriau ac ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, yr unig lefel o gyswllt oedd naw apwyntiad adsefydlol mewn naw mis.

Bu dwy drosedd bellach, yr olaf ohonynt yn arwain at orchymyn cymunedol pellach gyda GGA. Roedd James yn dal i fod mewn cysylltiad, ac roedd cynllun ffurfiol yn cael ei roi yn ei le. Ond yn y bôn roedd wedi parhau i ddefnyddio cyffuriau, yn dioddef o afiechyd meddwl, a dwyn o siopau. Tra bod ychydig o welliant efallai, nid oedd y swyddog cyfrifol wedi ymwneud yn ddigonol â'r achos.

Roeddem wedi canfod mewn mwy nag un achos mewn pedwar, na ystyriwyd nodweddion amrywiol ac amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn ddigonol wrth drosglwyddo'r GGA.


Rydym yn disgwyl hefyd bod sylw penodol yn cael ei roi gan ymarferwyr i unrhyw rwystrau posibl rhag ymgysylltu'n effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau personol megis dull o ddysgu neu safon llythrennedd, ac amgylchiadau ymarferol megis cyfrifoldebau cyflogaeth neu ofalu a allai wrthdaro gyda phresenoldeb. Roedd sylw digonol yn cael ei roi i adnabod a goresgyn ffactorau o'r math hyn mewn ychydig dros hanner yr achosion yn unig yr edrychom arnynt.

Mewn achosion lle roedd GGA yn cael ei drosglwyddo gan sefydliad allanol, roeddem wedi canfod bod y swyddog cyfrifol yn darparu ysgogiad a chefnogaeth barhaus annigonol ar gyfer ymgysylltu'r defnyddiwr gwasanaeth â'r gweithgarwch mewn hanner yr achosion CAC perthnasol a arolygwyd gennym. Roedd arfer yn achosion y GPC yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion.

5.2. Nifer o ddiwrnodau a drosglwyddwyd

Ar gyfartaledd y nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgaredd GGA a orchmynyd yn yr achosion yn ein sampl oedd 28 niwrnod yr unigolyn, ond cyfartaledd y nifer o ddiwrnodau a gwblhawyd adeg ein harolygiad (9 mis wedi'r ddedfryd) oedd 6 yn unig, yn cynrychioli cyfradd, ar gyfartaledd, o lai nag 1 diwrnod y mis, a 22% yn unig o'r holl ddiwrnodau a orchmynyd. Ar y cyfan, dim ond 5 o'r 72 achos oedd wedi cwblhau mwy na thri chwarter y nifer uchaf o ddiwrnodau, 2 ohonynt wedi cwblhau'r nifer cyfan a orchmynyd¹⁰.

Ar y cyfan, canfuom fod dwy draean o'r achosion wedi cwblhau llai na chwarter y nifer uchaf o ddiwrnodau, ac o blith y rhain roedd 12 heb gwblhau dim o gwbl. Wrth gwrs, mewn ambell achos medrai'r gwaith adsefydlol roedd ei angen, yn y pen draw, fod wedi ei gwblhau mewn llai na'r nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch a orchmynyd, ac mewn un achos roedd hyn eisoes wedi digwydd. Mae'r wybodaeth hon wedi ei chrynhai yn Ffigur 5. Nid yw methu trosglwyddo'r nifer uchaf o ddiwrnodau a orchmynyd yn arwydd, o reidrwydd, o fethu trosglwyddo'r holl waith oedd ei angen, er fel y nodwyd eisoes, yn y rhan fwyaf o achosion y buom yn eu harolygu nid oedd digon o gynnydd wedi ei wneud wrth drosglwyddo'r gweithgareddau GGA a gynlluniwyd.



Wrth ystyried yr holl gysylltiadau a wnaed yn y gorchymyn fodd bynnag, gan gynnwys apwyntiadau GGA yn ogystal â diwrnodau gweithgarwch GGA, yn ogystal â'r rhai hynny a oedd yn perthyn i unrhyw ofnyion eraill yn y gorchymyn, roedd darlun gwahanol i'w weld. Canfuom fod 31% o'r holl apwyntiadau heb eu cadw, er bod rhai o'r rhain (megis gwaith di-dâl) heb unrhyw ddiben adsefydlol uniongyrchol. Fodd bynnag, gall y lefelau cyswllt hyn egluro'n rhannol pam y canfuom nad oedd digon o gynnydd wedi ei wneud yn y rhan fwyaf o achosion, wrth drosglwyddo gweithgareddau a gynlluniwyd.

¹⁰Roedd nifer y diwrnodau GGA a gwblhawyd wedi eu cyfrifo trwy adolygu'r cofnodion log ymhob achos er mwyn penderfynu nifer y cysylltiadau y dylid fod wedi eu cyfrif fel diwrnodau gweithgarwch GGA, yn seiliedig ar eu cynnwys. Ceir manylion pellach yn adran 5.6.

Enghraifft o arfer da:

Yn Huddersfield roedd y CAC wedi sefydlu adroddiad tracio gan ddefnyddio gwybodaeth nDelius i fonitro cyfradd trosglwyddo diwrnodau gweithgarwch GGA. Roedd hyn yn rhybuddio ymarferwyr pan nad oedd digon o ddiwrnodau wedi eu gwneud mewn perthynas â'r amser a aeth heibio ers y gorchymyn.

5.3. Disgwyliadau troseddwy

Soniodd llawer o'r ymarferwyr roeddem wedi cyfarfod â hwy am yr anhawster o reoli camddealltwriaeth troseddwy ynghylch gofynion cyfreithiol eu gorchmynion. I grynhoi, roedd llawer o droseddwy yn credu mai eu hunig reidwydd oedd mynychu cyfarfodydd gyda'u swyddog cyfrifol, neu unigolyn arall yn ôl y cyfarwyddyd a roddwyd, am y nifer o droeon a nodwyd gan y nifer uchaf o ddiwrnodau gweithgarwch a orchmynwyd. Yn y llys roeddent yn gyffredinol wedi deall hyd y gorchymyn a'r nifer o ddiwrnodau, ond nid oeddent yn ymwybodol yn aml o fanylion megis y rheidwydd i fynychu unrhyw nifer o apwyntiadau yn ôl y gofyn gyda'u swyddog cyfrifol, i dderbyn ymweliadau yn eu cartref, ac i hysbysu'r swyddog cyfrifol am fanylion amrywiol.

Fel yr eglurodd un swyddog cyswllt y llys wrthym:

"Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi drysu'n llwyr; ac mae'n anodd am na fedrwyd roi eglurhad manwl iddynt. Dylai'r cyfeiriadur gwasanaeth fod yn offeryn i'w ddefnyddio i siarad â defnyddwyr gwasanaeth pan gânt eu dedfrydu. Dylech fedru edrych arno gyda hwy a dweud 'rydych wedi cael hyn a hyn o ddiwrnodau GGA, dyma'r meysydd y mae angen i chi fynd i'r afael â hwy, ac mae'n debyg y bydd gofyn i chi wneud hyn, hyn a hyn...' Ond nid ydym yn gyffyrddus yn siarad â hwy am hyn yn y llys gan nad oes unrhyw un yn sicr o'r hyn y byddant yn ei wneud yn y pen draw."

Neu fel y nododd un Barnwr Rhanbarth y cyfarfuom ag ef:


***Roedd y ddeddfwriaeth ymhell o fod yn glir"**.*

O ganlyniad, roedd llawer o droseddwy wedi derbyn sioc annymunol o glywed ar ryw adeg wedi'r ddeddfryd, yn hytrach na mynychu ar gyfer y nifer o ddiwrnodau gweithgarwch, byddai disgwyl llawer mwy ganddynt mewn difrif, gan ddechrau'n aml gyda'u hapwyntiad cynefino cychwynnol pan sylweddolwyd hyn am y tro cyntaf.

Roedd hyn yn broblem benodol mewn gorchmynion aml-ofynion lle roedd y troseddwr wedi meddwl bod cynnwys y gorchymyn yn ei gyfanrwydd, sef er enghraifft nifer yr oriau o waith di-dâl, mynychu gofyniad triniaeth am gyffuriau, a'r gwaith a ragwelwyd mewn gwirionedd ar gyfer y GGA, wedi eu cwblhau i gyd o fewn y nifer o ddiwrnodau a nodwyd. Roedd delio ag anfodlonrwydd y defnyddiwr gwasanaeth a'u hail-ysgogi i ymgysylltu mewn ffordd bwrpasol â'r hyn a ofynnwyd gan y gorchymyn, ac i gyflawni newid llwyddiannus yn eu hadsefydlu, yn her ychwanegol i waith y swyddog cyfrifol na fyddai wedi codi o dan y fframwaith cyfreithiol blaenorol.

5.4. Gorfodaeth

Canfuom hyd at adeg yr arolygiad bod mwy na hanner yr unigolion yn achosion ein sampl wedi cydymffurfio'n foddhaol â'u gorchmynion, i'r graddau eu bod wedi mynychu'r rhan fwyaf o apwyntiadau a drefnwyd, ac wedi ymddwyn yn briodol yno. O'r rhai hynny nad oeddent wedi cydymffurfio, roedd traean wedi eu dychwelyd i'r llys am dorri gorchymyn, traean wedi eu hail-ddedfrydu am drosedd bellach, ac roedd traean a ddylai fod wedi eu dychwelyd i'r llys am dorri gorchymyn neu am amrywiad ar y gorchymyn ond heb wneud. Tra bod gofynion ychwanegol yng ngorchmynion rhai o'r achosion yn ogystal â'r GGA, yn y rhan fwyaf o enghreifftiau roeddent wedi torri GGA, heb ystyried unrhyw ofyniad arall. Mae'r wybodaeth hon wedi ei chrynhai yn Ffigwr 6.



Yn ein sampl, lle roedd achosion wedi dychwelyd i'r llys oherwydd torri gorchymyn, neu oherwydd trosedd bellach, y canlyniad oedd bod dedfryd gymunedol gyda GGA yn parhau ymhob un o'r achosion hynny lle roeddem yn ystyried bod hyn yn weithred synhwyrol a phwrpasol.

Ym mhob un o'r achosion hynny y dylid fod wedi eu dychwelyd i'r llys ond ni ddigwyddodd hynny, ein barn oedd y byddai caniatáu goruchwyllo gyda GGA i barhau wedi bod yn gyngor priodol i'w roi i'r llys. Yn ein sgysiau â dedfrydwy, fodd bynnag, nid manylion y GGAEu hunain oedd y pryder pennaf a nodwyd, ond yn hytrach gorfodaeth gywir dedfrydau cymunedol yn gyffredinol. Pwynt ein canfyddiadau yw, nid a fyddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol yn yr achosion roeddem wedi eu harolygu pe byddai'r gorchymyn wedi ei ddychwelyd i'r llys i'w adolygu, ond bod parhad yn hyder y dedfrydwy mewn dedfrydau cymunedol a'r sefydladau sy'n eu trosgwlyddo yn dibynnu ar barch at broses. Rôl y llysoedd yw penderfynu'r hyn y dylid ei wneud mewn achos lle mae troseddwr yn torri ei orchymyn ac nid y swyddog cyfrifol.

Gellir defnyddio, ac fe ddefnyddiwyd disgrisiwn gan swyddogion cyfrifol a'u rheolwyr wrth weithredu'r safonau a osodwyd gan GCRhT pan oedd galw am orfodaeth, ond dylai gael ei fonitro'n gywir a'i oruchwyllo, ac roedd yn ymddangos mewn rhai achosion nad oedd hyn yn digwydd.

Mewn un llys yr ymwelom ag ef roedd Cadeirydd y Fainc a'r Barnwr Rhanbarth yn pryderu ynghylch lleihad amlwg yn y nifer o doriadau oedd yn ymddangos gerbron y llys. Roedd swyddogion cyswllt y llys lleol wedi adrodd iddynt sylwi ar gynnydd yn y nifer o apwyntiadau a gollwyd a ystyriwyd yn dderbyniol, yn dybiedig, yn yr achosion CAC oedd yn ymddangos gerbron y llys, ac yn nodi bod dedfrydwy wedi gwneud sylwadau am hyn yn llysoedd y Goron a llysoedd ynadon fel ei gilydd.

Gwelsom hefyd lefel uchel o absenoldebau a ystyriwyd yn dderbyniol mewn rhai achosion. Roedd dedfrydwy wedi nodi eu pryderon am y broses gywir: roeddent yn meddwl ei bod yn gywir bod swyddogion cyfrifol yn defnyddio disgrisiwn ynghylch y nifer o apwyntiadau a gollwyd, ond y dylai gorchymynion gyda nifer arwyddocaol o apwyntiadau a gollwyd (yn dderbyniol neu fel arall) arwain at y gorchymyn yn cael ei ddwyn o'u blaenau.

Dywedodd un Cadeirydd y Fainc wrthym:

Nid ydym yn hollol fodlon gyda'r CAC. Rydym yn canfod nad ydynt (swyddogion cyfrifol) yn gorfodi eu hachosion yn ddigon cyflym. Mae'r gair yn mynd ar led a chyn hir mae pobl yn meddwl nad oes yn rhaid iddynt wneud yr hyn mae eu gorchymynion yn nodi. Roedd pobl eraill (dedfrydwy) wedi dweud wrthyf bod hyn yn broblem hefyd".

Dyweddodd Barnwr Rhanbarth:

“Rwy'n teimlo'n rhwystredig pan fydd toriadau'n dod yn eu holau ac yn canfod bod dim wedi digwydd yn yr achos am chwe neu saith mis”.

5.5. Problemau gyda diffinio GGA

Daethom ar draws rhywfaint o ddryswch ynghylch yr hyn yn ymarferol y gellid ei gyfrif fel adsefydlu, at ddibenion y GGA ac mae hyn wedi effeithio ar sut y mae'r gofyniad wedi ei gyflwyno a'i gofnodi.

Yn fwriadol, nid yw'r Ddeddf orfodi nac arweiniad GCRhT wedi diffinio adsefydlu, er mwyn osgoi, trwy amryfusedd, gyfyngu'r amrediad o arferion ac ymyriadau y gellid eu hystyried fel rhai adsefydlol. Roedd hyn yn gyson â nod y llywodraeth o annog arloesedd a chreadigrwydd i gyflawni ymatal rhag troseddu.

Roedd yr arweiniad cychwynnol lefel uwch ar GGA a gyhoeddwyd gan GCRhT (cyfarwyddyd prawf 58/2014) a'r GPC (Canllaw Genedlaethol DAT a ddiweddarwyd yn 2015 a 2016) yn rhoi darlun clir o'r fframwaith gyfreithiol ar gyfer eu trosglwyddo. Roedd ein sgwrsiau â staff yn dangos bod effaith hyn, ac arweiniad lleol yn ogystal, wedi ei golli am iddo gael ei daflu i'r cysgod wrth gyflwyno trefniadau newydd cyfochrog ar gyfer goruchwyllo wrth ryddhau o garchar, newidiadau sefydliadol mawr a dibyniaeth drom ar gyfathrebu rhwng rheolwyr a staff trwy e-bost a chylchlythyron yn hytrach na thrwy ddulliau mwy personol ac ymgysylltiol. Roedd gweithgarwch hyfforddi a briffio wedi bod y lleiaf posibl.

Roedd yr holl staff roeddem wedi cyfarfod â hwy yn glir ynghylch yr hyn, mewn egwyddor, a allai olygu adsefydlu, ond yn ymarferol roedd rhai'n ansicr ynghylch a fyddai cyswllt neilltuol yn cael ei ystyried fel y cyfryw. Roedd arweiniad a gyflwynwyd gan rai o'r CAC yn glir bod modd ystyried gweithgarwch rheoli troseddwr megis cynefino, apwyntiadau cychwynnol cynllunio dedfryd, cyfarfodydd i adolygu cynlluniau dedfrydu, a chyfarfodydd i drafod cydymffurfio a gorfodi fel gwaith â bwriad adsefydlol ac felly eu cofnodi fel apwyntiadau GGA; ond nid fel diwrnodau gweithgarwch GGA. Byddai'r olaf, trwy oblygiad, wedi canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar fynd i'r afael â ffactorau oedd wedi cyfrannu at y troseddu. Rydym yn cytuno.

Roedd arweiniad cenedlaethol a lleol yn glir na ddylid defnyddio GGA i drosglwyddo gweithgarwch y dylid ei ddarparu trwy ofyniad ar wahân ar gael yn y ddeddfwriaeth megis gwaith di-dâl (Ad-dalu Cymunedol), neu driniaeth am gyffuriau. Roedd yr eithriad i hyn mewn perthynas â rhaglenni achrededig, a ganiateir yn unswydd gan y ddeddfwriaeth fel a nodwyd yn gynharach.

Roedd yr arweiniad a gyflwynwyd ar y pwynt olaf hwn yn amrywio. Roedd arweiniad GCRhT (cyfarwyddyd prawf 58/2014) yn nodi: 'Bydd modd i ddarparwyr drosglwyddo rhaglen achrededig o dan y GGA os byddant yn dymuno gwneud cyhyd ag y bod modd ei chwblhau yn y nifer uchafswm o ddiwrnodau a nodwyd gan y llys'. Roedd Arweiniad Cenedlaethol DAT y GPC yn caniatáu defnyddio GGA i drosglwyddo rhaglen achrededig, ond yn unig lle nad oedd digon o wybodaeth ar gael adeg y dedfrydu i gadarnhau bod y troseddwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhaglen ac felly bod GGA wedi ei wneud yn hytrach.

Roedd rhan o arweiniad y CAC yn ymestyn hyn ac yn gwahardd defnyddio GGA i drosglwyddo rhaglenni achrededig o dan unrhyw amgylchiadau (er enghraifft Llundain) tra bod eraill (er enghraifft Cymru) yn caniatáu hyn cyhyd â bod y gorchymyn yn cynnwys nifer digonol o ddiwrnodau i gwblhau'r rhaglen. Roedd un rheolwr CAC wedi nodi pryder am hyn am fod y ffi i drosglwyddo'r un rhaglen trwy GGA yn sylweddol is na thrwy ofyniad rhaglen achrededig.

Yn Huddersfield roedd y CAC wedi etifeddu arfer gan yr Ymddiriedolaeth Prawf blaenorol lle roedd trefniant unigryw gyda'r llysoedd lleol wedi rhagweld trefniant tebyg i'r GGA, lle gorchymynwyd rhaglenni achrededig gan ddefnyddio gofyniad rhaglen generig a'r Ymddiriedolaeth oedd yn penderfynu pa raglen i'w throsglwyddo yn dilyn asesiad ôl-ddedfryd. Nid oedd cynllun clir na pholisi

nawr ynghylch a oedd rhaglenni achrededig i'w trosglwyddo o dan GGA neu o dan ofyniad rhaglen achrededig. O ganlyniad, roedd y CAC wedi bod yn trosglwyddo rhaglenni achrededig gan ddefnyddio GGA, ond eu bwriad oedd sicrhau bod cynifer â phosibl yn cael eu trosglwyddo trwy ofynion rhaglenni achrededig er mwyn amlhau incwm.

Roedd yr arweiniad ynghylch peidio â defnyddio GGA i drosglwyddo gwaith y gellid ei drosglwyddo trwy ofyniad gwahanol wedi ei ddrysu ymhellach lle roedd y ddau ofyniad yn cael eu darparu gan yr un sefydliad allanol. Er enghraifft, roedd yn bosibl bod sefydliadau oedd yn darparu triniaethau am alcohol, cyffuriau neu iechyd meddwl hefyd yn darparu pecynnau gwaith tebyg i'w defnyddio gyda defnyddwyr gwasanaeth ar GGA. Gallai cryn dipyn o orgyffwrdd ddigwydd yng nghynnwys yr hyn a gafodd ei drosglwyddo mewn gwirionedd, hyd yn oed os oedd y sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn yn wahanol. Daethom ar draws rhai achosion oedd yn ymgymryd â gofynion triniaeth am alcohol neu gyffuriau, gyda GGA yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i waith adsefydlol arall, tra yn yr un lle roedd achosion gyda gofynion unigol GGA a'r GGA yn cynnwys diwrnodau gweithgarwch wedi eu trosglwyddo gan y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau. Roedd hyn yn addas o gofio nad oedd yr achosion hwyrach wedi cyfarfod â'r trothwy ar gyfer gofyniad am driniaeth, ond ar yr wyneb roedd yn ymddangos yn ddrislyd.

Fel a nodwyd yn gynharach, mae llawer o orchmynion yn cynnwys gofynion eraill ochr yn ochr â'r GGA. Mewn ambell achos canfuom dystiolaeth o gyswilt GGA yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi gwaith a drosglwyddwyd trwy ofynion eraill. Defnyddiwyd trafodaethau unigol rhwng y swyddog cyfrifol a'r defnyddiwr gwasanaeth i baratoi'r defnyddiwr gwasanaeth i gymryd rhan mewn rhaglen achrededig neu raglen driniaeth am gyffuriau wedi eu trosglwyddo o dan ofyniad ar wahân. Yn yr un modd, defnyddiwyd cyfarfodydd dilynol gyda'r swyddog cyfrifol i atgyfnerthu a dilyn trywydd cynnydd y defnyddiwr gwasanaeth yn ystod ac ar ôl cwblhau'r rhaglen. Dyma waith a wnaed ar GGA y gellid ei gyfrif yn gywir fel diwrnod gweithgarwch. Roedd y dull hwn i'w weld mewn achos y buom yn ei arolygu yn Huddersfield.

Enghraifft o arfer:

Roedd David wedi ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol am yrru o dan ddylanwad alcohol, wedi ei oruchwylio gan y CAC yn Huddersfield. Roedd ei orchymyn yn cynnwys gofynion am 60 awr o waith di-dâl, y rhaglen GdDd, (Gyrwyr dan Ddylanwad), (rhaglen achrededig o 14 sesiwn) a GGA gyda 25 niwrnod o weithgarwch. Defnyddiodd y swyddog cyfrifol ddiwrnodau GGA i drosglwyddo gwaith ar archeb cyn-rhaglen yn canolbwyntio ar gamddefnyddio alcohol i baratoi ar gyfer y cwrs GdDd, a hefyd rhaglen unigol dair sesiwn ar ymwybyddiaeth dioddefwyr a ddilynwyd gan waith cyffredinol ar ddatrys problemau generig. Roedd y gweithgarwch hwn wedi defnyddio 21 niwrnod GGA, ac nid oedd angen y gweddill. Roedd cysylltiadau i ymwneud â chynefino, cyfarfodydd cynllunio ac adolygu yn cyfrif fel tri apwyntiad GGA, tra bod presenoldeb ar GdDd yn cael ei gyfrif ar wahân o dan ofyniad y rhaglen achrededig. Cafodd y gwaith di-dâl a'r rhaglen GdDd eu cwblhau'n llwyddiannus. Un absenoldeb (derbyniol) yn unig a fu, ac o gofio cynnydd da David roedd y gorchymyn wedi ei ddychwelyd i'r llys a'i ddiddymu'n gynnar oherwydd cynnydd da.

Roedd rhai rheolwyr tim ac ymarferwyr yn llai clir ynghylch y gwahaniaeth rhwng diwrnodau gweithgarwch GGA ac apwyntiadau GGA, er bod hyn i'w weld yn fwy o broblem mewn rhai manau nag eraill. Un ffactor oedd yn cyfrannu at hyn oedd tra bod Deddf 2014 a *Thrawsnewid Adsefydlu* o bosibl wedi rhagweld y byddai'r rhan fwyaf o weithgarwch adsefydlu'n cael ei drosglwyddo gan ddarparwyr allanol mewn pecynnau neu raglenni arwahanol ac wedi eu diffinio'n glir, mewn gwirionedd roedd y rhan fwyaf yn cael eu trosglwyddo'n unigol gan y swyddogion cyfrifol eu hunain (fel a nodwyd yn Adran 4.2). Er bod hyn yn aml yn waith strwythuredig neu rannol-strwythuredig wedi ei seilio ar raglenni modylaidd, roedd yn ymdebygu'n fwy i gyswilt a fyddai'n flaenorol wedi ei drosglwyddo trwy ofyniad goruchwylio, yn hytrach na thrwy weithgarwch wedi ei drosglwyddo gan eraill a fyddai wedi ei drosglwyddo trwy ofyniad gweithgarwch.

Roedd hyn yn arwain ymarferwyr i weld y gwaith fel 'goruchwylio' yn hytrach nag 'adsefydlu' (er bod modd ei weld fel y ddau), ac i ddiffinio'r cyswllt fel apwyntiadau GGA yn hytrach na diwrnodau gweithgarwch GGA. Gallai hyn wedyn fod wedi ei gymhlethu gan arweiniad a roddwyd gan rai CAC y gellid ei gamddehongli i awgrymu nad oedd modd ystyried gwaith adsefydlu unigol gan swyddogion cyfrifol tuag at ddiwrnodau gweithgarwch GGA, er nad oedd y posibilrwydd hwn wedi ei ragwahardd naill ai gan eiriad y DAT, cyfarwyddyd GCRhT, neu Arweiniad Cenedlaethol y GPC.

Mae ystyried cyswllt GGA naill ai fel diwrnodau gweithgarwch neu apwyntiadau i'w gweld mewn achos y buom yn ei arolygu yng Nghaerfyrddin.

Enghraifft o arfer:

Roedd Dafydd ar orchymyn cymunedol gyda'r CAC yng Nghaerfyrddin, gan gynnwys GGA unigol gydag 20 niwrnod gweithgarwch. Roedd ganddo hanes hir o droseddu gyda llawer ohono, fel y drosedd gyfredol o ymosod, wedi ei achosi gan alcohol. Roedd y broblem hir dymor hon ynghlwm ag alcohol wedi ei chysylltu â phroblemau o iselder cymhedrol ac ynysu cymdeithasol.

Y flaenoriaeth ar gyfer diwrnodau GGA oedd cyswllt Dafydd â'i weithiwr allweddol yng Ngwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed i ostwng a chynnal ei yfed i lefel isel, a chyfrifwyd y rhain yn gywir fel diwrnodau gweithgarwch GGA. Gwnaed trefniadau iddo fynychu rhaglen 12 sesiwn wedi ei threfnu gan MIND (ar ran Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed) ac roedd y rhain hefyd i gael eu cyfrif yn gywir fel diwrnodau gweithgarwch GGA.

Roedd y swyddog cyfrifol wedi cynllunio hefyd i drosglwyddo rhaglen bedair sesiwn ar ymwybyddiaeth dioddefwyr yn unigol, ac i gyfrif y cysylltiadau hyn yn gywir fel diwrnodau gweithgarwch. Roedd hyn eisoes yn mynd â'r nifer o ddiwrnodau gweithgarwch a drosglwyddwyd ac a gynlluniwyd y tu hwnt i'r uchafrif o 20 a orchymynwyd. Yn ymarferol, unwaith roedd y nifer o ddiwrnodau a orchymynwyd wedi eu cyrraedd, gellid cyfrif y cysylltiadau oedd yn weddill fel apwyntiadau GGA. Roedd y swyddog cyfrifol mewn cysylltiad parhaus yn rheolaidd â Dafydd i gynnig ysgogiad, cefnogaeth ac atgyfnerthiad ar gyfer y gweithgarwch hwn, ac fe'u cofnodwyd fel apwyntiadau GGA ac nid fel diwrnodau gweithgarwch. O gofio am natur rhannol-strwythuredig ac adsefydlu'r cyfarfodydd hyn medrent gael eu cyfrif, yn yr un modd, fel diwrnodau gweithgarwch. Nid oedd cefnogaeth wirfoddol gan Gwalia Support i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol wedi ei chyfrif yn gywir fel unrhyw ran o'r gorchymyn llys.

Roedd rhai swyddogion cyfrifol heb gofnodi diwrnod gweithgarwch GGA fel y cyfryw am nad oedd yr angen penodol cysylltiedig â throseddu a'r gwaith oedd yn cael ei wneud wedi ffurfio rhan o'r cynllun dedfrydu, er bod y cynnwys yn dal i ymwneud ag adsefydlu. Yn ein barn gallai'r gwaith hwn fod wedi ei gyfrif fel diwrnod gweithgarwch GGA, yn enwedig lle gallai'r cynllun dedfrydu fod wedi ei ddiweddarau i'w ymgorffori, neu fel arall fel apwyntiad GGA.

Mewn rhai enghreifftiau, roedd gan y ffaith fod ymarferwyr yn cyfrif cyswllt fel apwyntiadau yn hytrach na gweithgarwch y potensial o gael ei ddylanwadu gan bryderon y CRA ynghylch ffrwyno costau a'r gor-ddefnydd o weithgarwch neilltuol wrth drosglwyddo GGA, hyd yn oed os, yn y mathau hyn o achosion, byddai'r arfer ond wedi newid cyfrif y cysylltiadau ac nid y cynnwys ei hun na'r gost. Roedd arweiniad CAC Llundain ar GGA yn nodi'r angen i ffrwyno costau wrth eu trosglwyddo¹¹.

Un pwynt oedd yn eglur ymhlith y staff roeddem wedi cyfarfod â hwy oedd bod diwrnod gweithgarwch yn cael ei ddiffinio gan gynnwys y sesiwn ac nid ei hyd. Roedd y rhan fwyaf yn deall hefyd y gellid cyfrif aml-weithgarwch oedd yn digwydd ar yr un diwrnod fel un diwrnod yn unig, er y byddai'n rhaid eu cofnodi ar y log cyswllt fel cysylltiadau gweithgarwch GGA ar wahân.

¹¹ Llundain CAC (Mehefin 2016), 'Gweithio gyda'r Gofyniad Gweithgarwch Adsefydlu, Arweiniad i Staff'.

Roedd y ffaith bod apwyntiadau lluosog ar yr un diwrnod ond yn cyfrif unwaith yn broblem mewn ardaloedd gwledig iawn, lle gellid ystyried mai'r trefniant trosglwyddo addas fyddai trefnu nifer o apwyntiadau ar un diwrnod i leihau trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig a drud. Canlyniad hyn oedd bod llai o ddiwrnodau'n cael eu cofnodi, gyda'r ddedfryd yn ymddangos yn llai beichus nag y byddai mewn ardal drefol lle byddai'r un cysylltiadau wedi eu gwasgaru dros fwy nag un diwrnod.

5.6. Problemau wrth gofnodi GGA

Canfuom nad oedd nDelius yn cadw cofnod cywir bob amser o'r nifer o ddiwrnodau gweithgarwch a gwblhawyd. Yn y rhan fwyaf o'r 72 achos roeddem wedi eu harolygu nid y nifer a nodwyd yn y cyfrif nDelius oedd y nifer roedd y swyddog cyfrifol wedi ei ddiffinio fel diwrnodau gweithgarwch a drosglwyddwyd, na lle roedd ein barn yn wahanol ynghylch y nifer roeddem yn ystyried eu bod wedi eu trosglwyddo. Canfuom fod y nifer a roddwyd gan nDelius yn llai fesul hanner diwrnod yr achos ar gyfartaledd na'n cyfrif ni. Ar gyfer y sampl cyfan roedd hyn yn cyfrif am 10% o gyfanswm nDelius. Oddi mewn i'r ffigur hwn, roedd y gwahaniaeth mewn achosion unigol yn amrywio o bymtheg niwrnod yn fwy i bymtheg niwrnod yn llai na ffigur nDelius. Mewn 11 achos yn unig roeddem yn cytuno â'r ffigur a gofnodwyd yn nDelius (ac eithrio'r achosion hynny lle roeddem yn cytuno â'r cofnod nad oedd unrhyw ddiwrnodau o gwbl wedi eu cwblhau).

Roedd amrediad o achosion am gofnodi'r nifer go iawn o weithgarwch GGA yn anghywir. Roedd rhai cofnodion yn adlewyrchu camddealltwriaeth gan yr ymarferwr o'r gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i bob cyswllt GGA gynnig cynnwys adsefydlu. Roedd rhai cysylltiadau wedi eu cyfrif yn anghywir fel gweithgarwch GGA, pan nad oedd y cyfarfod wedi cynnwys unrhyw gynnwys adsefydlu; er enghraifft, pan oedd y defnyddiwr gwasanaeth ond yn 'adrodd-mewn' i barhau cyswllt ar adeg pan nad oedd y swyddog cyfrifol ar gael, neu ar gyfer trafodaeth ynghylch materion perthnasol i reoli'r gorchymyn yn hytrach na'r rhai hynny gyda ffocws penodol ar adsefydlu.

Roedd gan gysylltiadau eraill gynnwys adsefydlu clir ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth, ond am ryw reswm nid oeddent wedi eu cofnodi fel gweithgared GGA, oherwydd bod yr ymarferwr ond yn cyfrif y rhai hynny oedd wedi eu cynllunio a'u rhaglennu rhag blaen, neu'r rhai hynny oedd yn gysylltiedig â maes arbennig o waith. Weithiau, yn arbennig cyfarfodydd adolygu cynnydd a oedd yn cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, swyddog cyfrifol a gweithiwr o sefydliad allanol yn trosglwyddo diwrnodau gweithgaredd GGA, roedd cyfarfod yn cynnwys sgwrs am reoli'r gorchymyn ac adolygiad a chrynodeb byr o'r newid a ddigwyddodd neu'r hyn a ddysgwyd. Roedd yn ddadleuol a dylai'r cyfarfod fod wedi ei logio fel apwyntiad GGA (fel yr awgrymwyd gan beth o'r arweiniad a nodwyd yn gynharach), neu fel diwrnod gweithgarwch GGA am fod gan y cynnwys ran sylweddol yn y gwaith adsefydlu ei hun.

Roedd llawer o'r ymarferwyr roeddem wedi cyfarfod â hwy'n meddwl oherwydd na fedrent fynd heibio i'r nifer uchaf o ddiwrnodau GGA a orchmynyd gan y llys, bod yn rhaid dogni diwrnodau GGA er mwyn sicrhau bod diwrnodau nas defnyddiwyd wrth gefn i'w defnyddio i gwrdd ag unrhyw anghenion annisgwyl yn nes ymlaen yn y gorchymyn. Canlyniad hyn oedd bod diwrnodau gweithgarwch dilys GGA yn cael eu logio yn lle hynny fel apwyntiadau GGA. Mewn gwirionedd, medrai anghenion o'r math yn y dyfodol fod wedi cael eu bodloni trwy apwyntiadau cyfreithiol gorfodadwy yn hytrach na gweithgarwch, yn union fel roedd y gwaith a wnaed yn y cysylltiadau cyfredol wedi ei gyfrif fel apwyntiadau'n hytrach na gweithgarwch. O ganlyniad, roedd cofnodion yr achos yn dangos nifer is o ddiwrnodau gweithgarwch GGA nad oedd wedi eu cwblhau. Roedd yr arfer hwn, fodd bynnag, yn osgoi problem bosibl y gallai defnyddio apwyntiadau yn hytrach na gweithgarwch fod wedi cyfyngu cwmpas y gwaith wedi i'r nifer o ddiwrnodau a orchmynyd gael eu defnyddio, oherwydd yn oblygedig gellid disgwyl mwy'n gyfreithiol gan droseddwr mewn gweithgarwch GGA nag mewn apwyntiad GGA.

Mewn ambell achos, roedd gweithgarwch GGA wedi ei drosglwyddo gan sefydliadau allanol ac nid oedd wedi ei gofnodi oherwydd nad oeddent wedi dweud wrth y swyddog cyfrifol am y presenoldeb. Roedd rhai asiantaethau'n medru mewnbynnu cysylltiadau'n uniongyrchol i nDelius,

er enghraifft gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a fedrai logio cysylltiadau ar gyfer GGA, a hefyd y rhai hynny ar gyfer gofynion adsefydlu cyffuriau. Roedd posibilrwydd yma bod modd edrych heibio i nodi cyswllt, a medrai hyn osgoi sylw oni bai bod y swyddog cyfrifol yn sylwi ar bresenoldeb a gollwyd, yn ôl pob tebyg. Mewn llawer o achosion, hyd yn oedd lle roedd asiantaethau allanol wedi cofnodi'n uniongyrchol ar nDelius, nid oedd y cofnod yn cynnwys unrhyw beth yn fwy na nodyn bod y defnyddiwr wedi mynychu. Medrai datrys y materion hyn fod yn anodd, gan fod y contract gyda'r asiantaeth yn aml yn nwylo'r cwmni oedd yn berchen ar y CAC, neu ar lefel genedlaethol gyda'r GPC. Ar lefel leol gallai rheolwyr nodi eu pryderon ond nid oedd ganddynt y grym i fynnu gwelliant.

Yn olaf, camgymeriadau wrth ddefnyddio system nDelius ei hun oedd rhai gwallau, lle roeddem ni a'r ymarferwr fel ei gilydd wedi ystyried bod y cyswllt yn ffurfio diwrnod gweithgarwch GGA, ond nad oedd wedi ei gofnodi felly. Mae'n bosibl mai diofalwch syml neu wall oedd hyn, neu oherwydd cyfuniad o ddiffyg arweiniad i'r ymarferwr ynghylch defnyddio'r system, neu ddiffyg meistrolaeth ar eu rhan.

Soniodd swyddog cyswllt y llys wrthym sut roedd anawsterau gyda chofnodion achosion yn effeithio ar weithredu gorfodaeth yn y llys. Yn y CAC penodol yn eu hardal roedd hyn wedi ei gymhlethu gan fod y CAC yn defnyddio canolfan alwadau i gysylltu â staff.

Mae'n ymddangos bod diffyg cofnodi diwrnodau gweithgarwch GGA yn gyffredinol a bod hyn yn golygu na fedr staff cyswllt y llys ddweud sawl un sydd wedi eu cwblhau pan ddaw gorchymyn yn ôl oherwydd toriad neu os yw'r troseddwr yn ei ôl oherwydd trosedd arall. Gall nDelius fod yn anodd ei ddehongli.

Nid oes gan staff cyswllt yr wybodaeth ac mae'n gwneud i ni edrych yn wirion yn y llys. Mae gan y CAC ganolfan alwadau nawr ac maent yn gwneud popeth trwyddi, sydd yn golygu na fedrwn ffonio'r swyddogion cyfrifol yn uniongyrchol. Mae'n amhosibl; roeddwn yn ceisio ffonio ddod am fod y llys yn aros am wybodaeth a chlywais mai fi oedd rhif 19 yn y ciw!

Yn y diwedd rydym yn ffonio pobl rydym yn eu hadnabod ar eu ffonau symudol personol er mwyn cael gwbyodaeth. Mae pobl yn dal i weithredu ar ewyllys da perthnasau etifeddol.

5.7. Casgliadau a goblygiadau

Canfuom fod diffyg cynnydd digonol wrth drosglwyddo'r gweithgarwch GGA a gynlluniwyd a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ynghyd â lefelau cyswllt annigonol a gormod o ddisgresiwn mewn perthynas â cholli presenoldeb a gorfodi, heb ei achosi gan argaeledd neu ansawdd gweithgarwch GGA, ond yn hytrach sylw annigonol i reoli troseddwr yn effeithiol. Roedd gan hyn y potensial i danseilio hyder dedfrydwyr.

Mae'r diffyg sylw i reoli troseddwr wedi ei achosi'n rhannol gan amhariad ar swyddogaethau staff a llwythi achosion a ddaeth yn sgil newid cyfundrefnol, a diffyg arweiniad i swyddogion cyfrifol ynghylch sut y dylai GGA gael eu gweithredu a'u cofnodi.

Yn benodol nid oedd digon o arweiniad i swyddogion cyfrifol ynghylch sut y dylid gweithredu gofynion gweithgarwch rheoli achosion nad oeddent yn adsefydlu (megis rheoli risgiau Diogelu Plant neu broblemau gyda phresenoldeb), er bod y ddeddfwriaeth yn darparu'r awdurdod i swyddog cyfrifol fedru ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.

Roedd dryswch ynghylch rheoli a chofnodi GGA, ac roedd yn eglur bod hyn yn tynnu oddi ar amser ac ymdrech rhai ymarferwyr rhag gwaith mwy effeithiol.

Atodiad 1: Geirfa

Rhaglen achrededig	<p>Rhaglen o waith a drosglwyddir i droseddwr mewn grwpiau neu'n unigol trwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu ran o ddedfryd o garchar neu amod mewn trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig wedi eu hachredu gan Banel Achredu Gwasanaethau Cywirol fel rhaglenni effeithiol i leihau'r tebygolrwydd o droseddu eto.</p> <p>Mae enghreifftiau yn cynnwys: Rhaglen Sgiliau Meddwl: rhaglen i ddatblygu sgiliau meddwl troseddwr i'w helpu i aros allan o drwbl; Adeiladu Perthynas Gwell: rhaglen i leihau aildroseddu gan droseddwr gwrywaidd sy'n oedolion o drais bartner agos.</p>
Gofyniad Triniaeth am Alcohol	Gofyniad y gall llys ei ychwanegu at orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig gyda'r nod o fynd i'r afael a chamddefnyddio alcohol
Neilltuo	Y broses a ddefnyddir i benderfynu a ddylai troseddwr gael ei oruchwylio gan y GPC neu CAC
Aseiniad	Y broses a ddefnyddir i gysylltu troseddwr ag un swyddog cyfrifol, a fydd yn trefnu a chydlynu yr holl ymyriadau i'w trosglwyddo yn ystod eu dedfryd
CGL	'Change Grow Live', a elwid cynt yn 'CRI', sef elusen gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n cefnogi pobl a'u galluogi i newid eu bywydau. Mae ei defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys pobl sydd wedi troseddu
Swyddog/Staff Cyswllt y Llys	Swyddogion/Staff a gyflogir gan y GPC i ymgymryd â gweithgareddau cyswllt yn y llys, gan baratoi gwybodaeth i ddedfrydwyr gan y GPC a'r CAC am ddiffynyddion a gwasanaethau prawf sydd ar gael, a gan y llys i'r GPC a'r CAC am ddiffynyddion a manylion eu troseddau a chanlyniadau achosion llys
CAC	Cwmni Adsefydlu Cymunedol: sefydlwyd 21 cwmni o'r math hwn ym Mehefin 2014, i reoli'r rhan fwyaf o droseddwr sydd yn cyflwyno risg isel neu ganolig o niwed difrifol
Ymataliad	Rhoi'r gorau i droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol arall
GdDD	Rhaglen i Yrwyrr dan Ddylanwad Alcohol: rhaglen genedlaethol achrededig sydd â'r nod i wynebu troseddwr gyda materion cysylltiedig ag yfed a gyrru
Gofyniad Adsefydlu am Gyffuriau	Gofyniad y gall llys ei ychwanegu at orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig gyda'r nod o fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau
AHCh	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella addysg unigolyn, ac i gynyddu eu gobeithion o gael cyflogaeth
Gwalia	Sefydliad elusennol sy'n gweithio yng Nghymru i ddarparu tai a gofal a chefnogaeth gysylltiedig
Uned Drosglwyddo Leol	Uned weithredol sy'n cynnwys swyddfa neu swyddfeydd, sy'n gyfystyr yn gyffredinol ag unedau rheoli sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol
TAAC	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd:

	Ile mae prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio ar y cyd yn lleol i reoli troseddwr sydd yn cyflwyno risg uwch o niwed i eraill. Rheolaeth asiantaeth arferol yw Lefel 1, lle gellir rheoli'r risgiau a gyflwynir gan y troseddwr gan yr asiantaeth sydd yn gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Mae hyn yn cymharu â Lefelau 2 a 3, sydd yn gofyn am reolaeth weithredol aml-asiantaethol
MIND	Elusen iechyd meddwl genedlaethol sydd yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r rhai hynny sydd yn profi problemau iechyd meddwl ac sy'n ymgyrchu i wella gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth
GC	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am y system gyfiawnder troseddol yn y Deyrnas Unedig
nDelius	National Delius: y system a gymeradwyir ar gyfer rheoli achosion a ddefnyddir gan y CAC a'r GPC yng Nghymru a Lloegr
GCRhT	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr: yr asiantaeth unigol sydd yn gyfrifol am garchardai a'r gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr
GPC	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth cenedlaethol unigol a ddaeth i fod ym Mehefin 2014. Ei swyddogaeth yw trosglwyddo gwasanaethau i lysoedd ac i reoli grwpiau penodol o droseddwr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai hynny sydd o dan amodau TAAC yng Nghymru a Lloegr
SAT	System Asesu Troseddwr: sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y CAC a'r GPC i fesur risgiau ac anghenion troseddwr dan oruchwyliaeth
GAGT	Graddfa Ailddedfrydu Grŵp Troseddwr: rhagfynegydd troseddu eto wedi ei seilio ar risgiau sefydlog; oedran, rhyw a hanes troseddol
Model rheoli troseddwr	Model o reolaeth achos a ddefnyddir gan GCRhT lle mae gan reolwr troseddwr (a elwir bellach yn swyddog cyfrifol) gyfrifoldeb cyflawn dros achos ond lle mae elfennau eraill o oruchwylio'r troseddwr yn cael eu trosglwyddo gan staff neu sefydliadau eraill o dan oruchwyliaeth rheolwr y troseddwr
DAT	<i>Deddf Adsefydlu Troseddwr 2014</i> : a ddaeth i rym yn Chwefror 2015, yn gysylltiedig â throseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, mae <i>Deddf Adsefydlu Troseddwr 2014</i> yn Ddeddf Seneddol oedd yn mynd law yn llaw â'r rhaglen <i>Trawsnewid Adsefydlu</i>
Partneriaid	Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, yn gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr trwy gytundeb partneriaeth a gytunwyd â CAC neu'r GPC
ACD	Adroddiad cyn dedfrydu: mae'n cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratowyd ar gyfer llys, p'un ai wedi ei drosglwyddo ar lafar neu mewn fformat ysgrifenedig
Swyddog prawf	Dyma'r term am swyddog cyfrifol cymwys sydd wedi cwblhau cwrs ar sail addysg uwch am ddwy flynedd. Mae'r enw ar y cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrwyio gan ddibynnu ar le y cafodd ei gynnal. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth
Swyddog gwasanaethau prawf	Dyma'r term am swyddog cyfrifol a recriwtiwyd yn wreiddiol heb gymhwyster prawf. Gallant gael mynediad i hyfforddiant

	Ileol penodol er mwyn cymhwyso fel swyddog gwasanaethau prawf neu i adeiladu ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Gallant rheoli'r achosion i gyd ac eithrio'r rhai mwyaf cymhleth gan ddibynnu ar lefel eu hyfforddiant a'u profiad. Mae rhai swyddogion gwasanaeth prawf yn gweithio oddi fewn i leoliad y llys, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu
Cerdyn cyfradd	Rhestr wedi ei safoni o'r prosiectau a'r gwasanaethau sydd gan CAC ar gyfer gweithio gyda throseddwr, gan ddangos y pris (neu gyfradd) ar gyfer eu prynu gan y GPC neu gan CAC arall
Swyddog cyfrifol	Y term a ddefnyddir ar gyfer y swyddog (a elwid gynt yn 'rheolwr troseddwr') sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli achos
Gofyniad Gweithgarwch Adsefydlu (GGA)	Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu: Ers Chwefror 2015, pan ddaeth y <i>Ddeddf Adsefydlu Troseddwr 2014</i> i rym, gall llysoedd nodi nifer o ddiwrnodau GGA mewn gorchymyn; y gwasanaethau prawf sydd yn penderfynu ar yr union waith i'w wneud yn ystod y diwrnodau GGA a ddyfarnwyd

Atodiad 2: Methodoleg

Prif elfennau'r arolygiad thematig hwn oedd:

Rhan un: Gwaith maes paratoadol

1. Adolygiad o'r dogfennau polisi a'r dogfennau arweiniad ynghylch GGA yng Nghymru a Lloegr.
2. Galwad am dystiolaeth ym mis Mai 2016 trwy ein gwefan, Trydar, LinkedIn ac e-bost wedi ei dargedu at GCRhT, pob Adran GPC, pob CAC a'u perchnogion priodol. Roedd hyn wedi cynhyrchu wyth ymateb manwl gan berchnogion CAC (tri), y GPC (pedwar), a Chymdeithas yr Ynadon (un).
3. Cyfarfodydd gydag arweinwyr GCRhT ar gyfer datblygu polisi, perfformiad a sicrwydd gweithredol, i bennu cryfderau a phryderon cyfredol wrth reoli a throsglwyddo GGA ac unrhyw gynlluniau perthnasol ar gyfer y dyfodol.
4. Ymarfer peilot ar gyfer y gwaith maes yn cynnwys ymweliad anffurfiol â'r CAC a'r GPC yn Lincoln (CAC Glannau Humber, Swydd Lincoln a Gogledd Swydd Efrog ac adran Gogledd-ddwyrain y GPC) yn ystod Gorffennaf 2016 i gasglu gwybodaeth ac i brofi methodoleg gwaith maes.

Rhan dau: Gwaith maes yr arolygiad

Roedd gwaith maes yr arolygiad yn cynnwys ymweliadau â chwe lle ym misoedd Medi a Hydref 2016 mewn ardaloedd prifddinasol, trefol a gwledig fel a ganlyn:

Lle	CAC	Perchennog CAC	Adran GPC
Caerfyrddin ¹²	Cymru	Working Links	Cymru
Huddersfield	West Yorkshire	Purple Futures	Gogledd-ddwyrain
Leicester	Swyddi Derby, Caerlŷr, Nottingham a Rutland	Partneriaeth Lleihau Aildroseddu	De-ddwyrain
Newcastle	Northumbria	Sodexo	Gogledd-ddwyrain
Newham	Llundain	MTC Novo	Llundain
Northampton	Swyddi Bedford, Northampton, Caergrawnt a Hertford	Sodexo	De-ddwyrain

Roedd yr ymweliadau gwaith maes yn cynnwys:

1. cyfweiliadau gydag 8 uwch reolwr CAC a 6 uwch reolwr GPC
2. cyfarfodydd â 63 aelod o staff o CAC a GPC yn cynnwys rheolwyr canol, swyddogion prawf, swyddogion gwasanaeth prawf, swyddogion prawf o dan hyfforddiant, a gweinyddwyr
3. cyfarfodydd â 14 aelod o staff a rheolwyr o 9 sefydliad allanol a oedd yn darparu gwasanaethau i'r CAC a'r GPC
4. cyfarfodydd â 25 o ddedfrydwyr ac ymgynghorwyr cyfreithiol lleol

¹² Yng Nghymru roeddem wedi canolbwyntio ar y gwaith yng Nghaerfyrddin ond roedd y llys lleol a rhai o'r gwasanaethau perthnasol wedi eu lleoli rywle arall yn Sir Gâr.

5. cyfweiliadau â 15 o ddefnyddwyr gwasanaeth
6. ymweliadau â phrosiectau a gwasanaethau lleol a ddefnyddir i weithredu GGA, ac arsylwi trosglwyddo gweithgareddau GGA gan CAC, GPC, a sefydliadau allanol
7. arsylwi gwaith GPC yn y llys gan gynnwys adolygiadau o drefniadau ar gyfer paratoi AGP a gwybodaeth ddedfrydu am GGA
8. adolygiadau o 72 o achosion; yn ogystal ag asesiadau ffeiliau achos, roedd yr adolygiadau'n cynnwys cyfweiliadau gyda'r swyddogion cyfrifol mewn 60 o achosion. Yn y gweddill nid oedd y swyddog cyfrifol ar gael ond mewn ambell achos trafodwyd yr achos gyda rheolwr y tîm neu gynrychiolydd arall.

Gwaith maes arolwg: proffil achos

Arolygom 72 o achosion troseddwr o'r 6 lle yng Nghymru a Lloegr, a oedd wedi eu dedfrydu i orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig oedd yn cynnwys gofyniad gweithgarwch adsefydlu ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2015. Cafodd y gorchymynion hyn eu gwneud, felly, naw neu ddeg mis wedi i'r GGA gael eu cyflwyno ar 01 Chwefror 2015.

Ym mhob lle roeddem yn arolygu wyth achos a neilltuwyd i'r CAC a phedwar achos a neilltuwyd i'r GPC. Nid oedd yn sampl cynrychiadol yn ystadegol; bwriad ein harolygiad achos yw creu canfyddiadau enghreifftiol. O'r achosion hyn:

- roedd 16 (22%) yn ferched
- roedd 54 (77%) yn wynion
- nid oedd gan 28 (58%) ddim crefydd; roedd 12 (25%) yn Gristnogion; a 5 (10%) yn Foslemaid
- roedd hanner wedi eu cofnodi fel heterorywiol a hanner heb eu cofnodi'n glir neu wedi dewis peidio â dweud
- roedd 23 (32%) wedi eu cofnodi gan y swyddog cyfrifol fel bod ag anabledd; roedd gan 16 o'r rhain broblemau gyda chyflwr emosiynol neu iechyd meddwl
- roedd 47 (65%) yn cyflawni gorchymyn cymunedol; a 25 (35%) orchymyn dedfryd ohiriedig
- roedd 48 (67%) yn cael eu rheoli gan CAC a 24 (33%) yn cael eu rheoli gan y GPC
- yn fwyaf cyffredin roedd y troseddwr wedi cyflawni trosedd dreisgar neu ddwyn
- mewn perthynas â risg o niwed difrifol i eraill roedd 6 wedi eu dosbarthu fel bod o risg uchel; 53 yn ganolig; a 13 yn risg isel
- roedd 14 achos yn gymwys ar gyfer Trefniant Aml-asiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a phob un wedi eu rheoli ar Lefel 1.

Diwrnodau GGA a gwblhawyd

Ym mhob achos roeddem wedi eu harolygu roeddem wedi cofnodi'r nifer o ddiwrnodau gweithgarwch GGA a gwblhawyd. Gwnaethpwyd hyn trwy adolygu cofnodion yn y log i gynhyrchu ffigur ar gyfer y nifer o gysylltiadau roeddem yn eu hystyried y dylent fod wedi eu cyfrif fel diwrnodau gweithgarwch GGA, ar sail eu cynnwys. Roeddem hefyd wedi nodi'r nifer fel y'u cofnodwyd yng nghyfanswm nDelius, nad oedd o reidrwydd yr un peth.

DS: Trwy gydol yr adroddiad hwn mae'r holl enwau y cyfeirir atynt mewn engrheiffiau o arfer wedi eu haddasu i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

Atodiad 3: Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i bawb oedd wedi cymryd rhan yn yr arolygiad hwn: staff a rheolwyr y Cwmnïoedd Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ynadon, Barnwyr Rhanbarth, a'r gwŷr a'r merched a fu'n ymwneud â'r system droseddol ac a soniodd wrthym am eu profiadau.

Y tîm arolygu

Arolygydd Arweiniol	Steve Woodgate, <i>Arolygydd</i>
Y Tîm Arolygu	Ruth Johnson, <i>Arolygydd</i> Lisa Ring, <i>Arolygydd</i> Jo Dowling, <i>Arolygydd Cynorthwyol</i>
Gwasanaethau Cefnogi	Kevin Ball, <i>Prif Swyddog Ymchwil</i> Claire Fallows, <i>Swyddog Data</i> Adam Harvey, <i>Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi</i> Oliver Kenton, <i>Swyddog Ymchwil</i> Alex Pentecost, <i>Pennaeth Gweithrediadau a chyfathrebu</i>
Golygydd Adroddiad	Helen Davies, <i>Prif Arolygydd Cynorthwyol</i>

Mae modd dod o hyd i Rôl Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

<http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/>

Corff cyhoeddus yw'r arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd yn dymuno cynnig sylwadau ar arolwg, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ein cylch gwaith ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf EM

Llawr 1af, Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion

1 Bridge Street West

Manchester, M3 3FX